FFYRDD O DDATRYS ANGHYDFOD:

GWELLA DATRYS ANGHYDFODAU YM MHRYDAIN.

YMATEB Y LLYWODRAETH

CYNNWYS

Rhagair

Crynodeb o'r casgliadau

Pennod Un: Cyflwyniad

Pennod Dau: Datrys Anghydfodau yn y Gwaith

Pennod Tri: Hyrwyddo Cymodi

Pennod Pedwar: Moderneiddio Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

ATODIADAU:

Atodiad A: Asesiadau o Effaith Rheoleiddio
Atodiad B: Rhestr o'r rhai a ymatebodd
Atodiad C: Cylch Gwaith Tasglu System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth
Atodiad D: Cysylltiadau

RHAGAIR

Yn y ddogfen ymgynghori "Routes to Resolution", disgrifiais ein nod: economi o fedrau da a chynhyrchiant uchel, a sicrheir drwy fannau gwaith sy'n perfformio'n dda, a chyflogwyr a gweithwyr yn cydweithio yno mewn partneriaeth.
Esboniwyd yr angen am newid a nodwyd cynigion uchelgeisiol ar gyfer cyrraedd y nod drwy greu system fodern o ddatrys anghydfodau a fyddai'n addas i roi gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb yr oedd arnynt ei hangen.

Yr oedd yr ymatebion a ddaeth i law yn drwyadl ac adeiladol. Cafwyd cryn gefnogaeth i'n bwriad i ddatrys anghydfodau drwy hybu deialog fwy cynhyrchiol yn y man gweithio, er nad oedd yna gefnogaeth i bob un o'r cynigion. Awgrymwyd nifer o gynigion eraill a buom yn ystyried y rhain ochr yn ochr a'r cynigion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Pecyn cytbwys yw'r canlyniad. Mae'n cynnig sylfaen gadarn ar gyfer gwell cyfathrebu yn y man gweithio, a system gyflymach a mwy effeithlon o dribiwnlysoedd cyflogaeth.

Byddwn yn cynnwys y cynigion hynny y mae angen deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer yn y Mesur Cyflogaeth, a gyflwynwyd ddoe. Symudir eraill yn eu blaen yn gyflym. Fel rhan o'i gylch gwaith ehangach, bydd Tasglu annibynnol System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, a gyhoeddwyd ar 25 Hydref, yn ymddiddori yn y materion gweithredol sy'n codi o'r cynigion eraill yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy.

Yr wyf yn ddiolchgar i bawb a gafodd amser i roi eu barn i ni. Mae'r papur hwn yn crynhoi'r sylwadau a gafwyd ac yn nodi'r rhaglen ddiwygio sy'n ffurfio'n hymateb iddynt.

Alan Johnson AS
Y Gweinidog Gwladol dros Gysylltiadau Cyflogaeth a'r Rhanbarthau
8 Tachwedd 2001

Bydd y Llywodraeth yn gweithredu i wneud y canlynol-

Datrys Anghydfodau yn y Gwaith

- Cyflwyno isafswm safonau gweithdrefnol newydd ar gyfer trafod anghydfodau yn y man gweithio, a gosod rhwymedigaethau ar gyflogwyr a gweithwyr i ddefnyddio'r safonau hyn (para. 15);

- Ymgorffori'r isafswm safonau gweithdrefnol hwn ym mhob contract cyflogaeth fel teler tybiedig (para. 15);

- Defnyddio'r system tribiwnlysoedd i atgyfnerthu pwysigrwydd yr isafswm safonau gweithdrefnol hwn drwy addasu swm dyfarndaliadau os na fydd y partïon wedi bodloni eu rhwymedigaethau (para. 19);

- Darparu na fydd tribiwnlysoedd yn derbyn ceisiadau penodol os nad yw'r gwyn wedi'i chofnodi yn y man gweithio, oni bai y buasai'n afresymol gwneud hynny (para. 20);

- Estyn y terfynau amser ar gyfer cyflwyno hawliad i dribiwnlys os yw'r gweithdrefnau datrys anghydfod ar y gweill yn y man gweithio (para. 21);

- Gwella'r cydymffurfedd â'r gofyniad bod gweithwyr yn cael datganiad o'u telerau cyflogaeth o fewn dau fis ar ôl dechrau gwaith (para. 27);

- Dileu esemptiadau'r busnesau lleiaf fel bod gwybodaeth am weithdrefnau'r man gweithio yn cael ei chynnwys ym mhob datganiad ysgrifenedig o delerau cyflogaeth (para. 27);

- Newid y ffordd y bernir diswyddiadau annheg, fel bod modd anwybyddu rhai diffygion yn y weithdrefn, ar yr amod bod yr isafswm safonau gweithdrefnol wedi'i fodloni (para. 32);

- Gosod amserlen ystyriol ar gyfer gweithredu'r newidiadau hyn fel y caiff cyflogwyr a gweithwyr ddigon o amser i'w deall. Ategu'r newidiadau â gwybodaeth a chanllawiau cynhwysfawr (para. 27);

Hyrwyddo Cymodi

- Hyrwyddo ffyrdd cyfeillgar ac amserol o setlo hawliadau tribiwnlysoedd cyflogaeth drwy gyflwyno cyfnod penodedig ar gyfer cymodi (para. 37);

- Ehangu cwmpas cytundebau cyfaddawd (para. 41);

- Hybu defnyddio gweithdrefnau amgen ar gyfer datrys anghydfodau (para. 43).

Moderneiddio Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

- Cyflwyno llwybr cyflym ar gyfer ceisiadau didrafferth mewn tribiwnlysoedd (para. 70);

- Darparu ar gyfer mwy o gysondeb yn y ffordd y mae'r tribiwnlysoedd yn prosesu hawliadau drwy alluogi Llywyddion Tribiwnlysoedd Cyflogaeth i roi cyfarwyddiadau arfer (para. 77);

- Rhoi canllawiau clir ar y gyfundrefn gostau (para. 55);

- Gwneud newidiadau i'r gyfundrefn gostau i ganiatáu i dribiwnlysoedd gynnwys, wrth gyfrifo dyfarndaliadau yn erbyn ymddygiad afresymol, gyfraniad at yr amser y mae'r ceisydd neu'r gwrthapelydd wedi'i dreulio yn paratoi'r achos (para. 59); darparu i ddyfarniadau costau gael eu gwneud yn erbyn cynrychiolwyr sy'n codi tâl am eu gwasanaethau (para. 57); ac ystyried ymhellach a ddylid cryfhau'r rhagdybiaeth bod tribiwnlysoedd yn dyfarnu costau yn erbyn ceiswyr neu gwrthapelwyr sy'n cyflwyno achos gwan, neu sydd fel arall yn ymddwyn yn afresymol wrth gyflwyno'u hawliad neu wrth ei gynnal (para. 63);

- Ei gwneud yn haws i dribiwnlysoedd ddileu cais neu ymateb gwan mewn adolygiad cyn y gwrandawiad (para. 66);

- Cysoni'r gyfundrefn costau ar gyfer Tribiwnlysoedd Apelau Cyflogaeth (EAT) â thribiwnlysoedd cyflogaeth (para. 60);

- Cyflwyno ffurflenni cais a ffurflenni ymateb gorfodol ar gyfer hawliadau a newid y system o gofrestru ceisiadau'n gyhoeddus (para. 75);

- Sefydlu Tasglu i gynghori a ddylid a sut y dylid gwneud y system tribiwnlysoedd cyflogaeth yn fwy effeithlon, cost-effeithiol, a defnyddiwr-ganolog, i fodloni'r galwadau sydd arni (para. 80).

Ni fydd rhai o'r cynigion a drafodwyd yn y papur ymgynghori, gan gynnwys cyflwyno ffioedd am geisiadau a gwrandawiadau tribiwnlysoedd, a thynnu gwaith cymodi ACAS o hawliadau llwybr cyflym, yn mynd yn eu blaen.

Asesiad o Effaith Rheoleiddio

Mae effaith pob un o'r cynigion hyn ar fusnes, ceiswyr a'r system tribiwnlysoedd cyflogaeth wedi'i chynnwys yn yr adran berthnasol yn y ddogfen. Yn gyffredinol, bydd y cynigion hyn yn arwain at leihau nifer y ceisiadau i dribiwnlysoedd cyflogaeth o ganlyniad i weithdrefnau mwy effeithiol yn y man gweithio a mwy o ddefnyddio ar gymodi. Amcangyfrifir y bydd effaith gyfun yr holl gynigion yn lleihau'r ceisiadau o rhwng 30,000 a 40,000 o'i gymharu â'r lefelau cyfredol, sy'n deillio'n bennaf o gyflwyno'r isafswm safonau gweithdrefnol. Byddai gostyngiad o'r fath yn arwain at **fuddion** i gyflogwyr o rhwng £66 a £90 miliwn ac at arbedion i'r trethdalwr o rhwng £13 a £19 miliwn ar ôl y ddwy flynedd cyntaf. Ceir **costau** unwaith-yn-unig i gyflogwyr o rhwng £46 ac £86 miliwn i ddechrau, wrth i'r isafswm safonau gweithdrefnol gael ei gyflwyno. Costau parhaus y cyflogwyr, i weithredu'r gweithdrefnau yn bennaf, yw rhwng £44 a £95 miliwn bob blwyddyn.

Ceir asesiad cyffredinol o effaith rheoleiddio, sy'n crynhoi costau a buddion pob cynnig newydd a sut y maent yn cyfrannu at yr effaith gyffredinol, yn Atodiad A. Ceir asesiadau cyflawn ar gyfer pob cynnig y mae angen deddfwriaeth sylfaenol ar ei gyfer fel rhan o'r asesiad ar gyfer y Mesur Cyflogaeth yn ei gyfanrwydd, sydd ar gael ar wefan y DTI.

PENNOD UN – CYFLWYNIAD

Y broses ymgynghori

1. Ym mis Gorffennaf, bu i ni gyhoeddi papur ymgynghori – "Routes to Resolution: Improving dispute resolution in Britain". Esboniodd y papur fod ceisiadau i dribiwnlysoedd wedi treblu ers 1990, a bod ymgyfreitha yn gostus ac yn straenllyd i'r cyflogwyr a'r unigolion o dan sylw. Cynigiwyd nifer o ddiwygiadau blaengar i hybu gwell dulliau o drafod anghydfodau yn y man gweithio, canolbwyntio'n fwy ar gymodi a moderneiddio'r system tribiwnlysoedd cyflogaeth. Bwriad y diwygiadau hyn yw sicrhau mai tribiwnlysoedd cyflogaeth yw'r dewis olaf wrth ddatrys anghydfod, nid y cyntaf.

2. Dosbarthwyd ychydig dros fil o gopïau o'r papur, a gyhoeddwyd ar y rhyngrwyd hefyd.

3. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 8 Hydref. Parodd ychydig ddyddiau'n llai na'r cyfnod delfrydol o 12 wythnos, i ganiatáu i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno'n gynnar, ar ôl ystyried yr ymatebion yn briodol. Cafwyd deialog gyflawn a thrwyadl gydag ystod eang o gyrff sydd â diddordeb yn y system tribiwnlysoedd cyflogaeth. Sefydlwyd grwpiau ffocws i sicrhau barn busnesau bach a'u cynrychiolwyr.

Ymatebion i'r ymgynghori

4. Cafwyd bron dau gant o ymatebion a bu'r sylwadau yn ystyrlon a phwyllog. Cafwyd sylwadau gan y CBI, y TUC, Cyngor y Busnesau Bach, Siambrau Masnach Prydain, Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori, y Gwasanaeth Ymgynghorol Cymodi a Chymrodeddu (ACAS), Cyngor Cadeiryddion Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a Chymdeithas y Cyfreithwyr ymhlith llawer o rai eraill. Cafwyd ymatebion ysgrifenedig gan ystod eang o gyrff ac unigolion; mae undebau llafur, gwasanaethau ymgynghorol ac ymarferwyr cyfraith cyflogaeth bob un yn cyfrif am ryw 10% o'r ymatebion, ac mae cyflogwyr a'u cynrychiolwyr yn cyfrif am ryw 25%. Gwelir rhestr, yn nhrefn yr wyddor, o'r ymatebwyr yn Atodiad B. Gellir gweld set gyflawn o ymatebion (ac eithrio'r rhai a ofynnodd am gyfrinachedd) drwy wneud cais i Wasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgell y DTI.

5. Yr ydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd yr amser a'r drafferth i gyflwyno sylwadau. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn cadarnhau bod angen newid a bod y pwyslais ar ddatrys anghydfodau yn y man gweithio yn iawn, er nad y cyfan o'r cynigion a gafodd gefnogaeth. Gofynnodd rhai o'r ymatebion, gan gynnwys un y TUC, am "adolygiad cynhwysfawr" o ddatrys anghydfodau yn y man gweithio.

"*Yr ydym yn cefnogi o lwyrfryd ewyllys y Llywodraeth i newid y system tribiwnlysoedd cyflogaeth." Siambrau Masnach Prydain.*

Crynodeb o'r Ymatebion

6. Mae'r dadansoddiad manwl ar y sylwadau hyn ac eraill ac ymateb y Llywodraeth iddynt wedi'u nodi yn y penodau sy'n dilyn yn y ddogfen hon. Mae'r dadansoddiad yn ystyried yr ymatebion yn ôl y tair prif bennod yn y ddogfen ymgynghori:

- Datrys anghydfodau yn y gwaith
- Hyrwyddo cymodi
- Moderneiddio tribiwnlysoedd cyflogaeth

7. Nod y dadansoddi yw rhoi gorolwg o gydbwysedd y sylwadau a fynegwyd a chyfeiriad yr ymatebion yn eu cyfanrwydd. Nid oes modd ymdrin â phob pwynt a wnaed gan yr ymatebwyr, ond enwir awduron rhai sylwadau pan yw hynny o gymorth i ddarlunio'r pwyntiau a wneir.

Materion pellach a godwyd yn yr ymatebion

8. Thema o bwys yn yr ymatebion oedd yr angen i sicrhau newid yn rheolaeth y system tribiwnlysoedd. Cynigiodd llawer awgrymiadau buddiol ar faterion gweithdrefnol a chafwyd llinyn cyson, sef bod angen mwy o adnoddau ar gyfer ACAS a'r tribiwnlysoedd cyflogaeth.

9. Trosglwyddir yr awgrymiadau hyn i Dasglu System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a sefydlwyd gan y Llywodraeth o dan gadeiryddiaeth Janet Gaymer (para. 50). Efallai hefyd y bydd y Tasglu am ystyried agweddau gweithredol ar y rhaglen ddiwygio a nodir yn y penodau canlynol.

10. Gofynnodd rhai o'r ymatebion am y berthynas rhwng y cynigion hyn ac adroddiad yr Adolygiad o Dribiwnlysoedd gan Syr Andrew Leggatt. Mae'r cynigion hyn, sy'n ymwneud ag arferion da, cymodi a gwasanaeth cyflymach a mwy effeithlon i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd cyflogaeth, yn cael eu symud ymlaen ar y cyd ag ymgynghoriad y Llywodraeth ar adroddiad Adolygiad Leggatt, sy'n edrych ar y system tribiwnlysoedd yn ei chyfanrwydd.

11. Credai'r TUC a nifer o undebau llafur y dylai'r adolygiad o ddatrys anghydfodau ddigwydd ar ôl adolygiad o'r ddeddfwriaeth gyflogaeth bresennol, gan gynnwys diswyddo annheg, neu ar yr un pryd ag ef. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i adolygu'r Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth yn ystod y Senedd hon, ond mae'n credu ei bod yn bwysig rhoi digon o amser i brofiad ddangos pa effaith y mae'r newidiadau yn y Ddeddf honno wedi'i chael. Os bydd yr adolygiad hwnnw'n dangos bod angen deddfu, yna fe fydd y Llywodraeth yn deddfu o fewn oes y Senedd hon.

PENNOD DAU - DATRYS ANGHYDFODAU YN Y GWAITH

Bydd y Llywodraeth yn gweithredu i wneud y canlynol:

- Cyflwyno isafswm safonau gweithdrefnol newydd ar gyfer trafod anghydfodau yn y man gweithio, a gosod rhwymedigaethau ar gyflogwyr a gweithwyr i ddefnyddio'r safonau hyn (para. 15);

- Ymgorffori'r isafswm safonau gweithdrefnol hwn ym mhob contract cyflogaeth fel teler tybiedig (para. 15);

- Defnyddio'r system tribiwnlysoedd i atgyfnerthu pwysigrwydd yr isafswm safonau gweithdrefnol hwn drwy addasu swm dyfarndaliadau os na fydd y partïon wedi bodloni eu rhwymedigaethau (para. 19);

- Darparu na fydd tribiwnlysoedd yn derbyn ceisiadau penodol os nad yw'r gwyn wedi'i chofnodi yn y man gweithio, oni bai y buasai'n afresymol gwneud hynny (para. 20);

- Gwella'r cydymffurfedd â'r gofyniad bod gweithwyr yn cael datganiad o'u telerau cyflogaeth o fewn dau fis ar ôl dechrau gwaith (para. 27);

- Dileu esemptiadau'r busnesau lleiaf fel bod gwybodaeth am weithdrefnau'r man gweithio yn cael ei chynnwys ym mhob datganiad ysgrifenedig o delerau cyflogaeth (para. 27);

- Estyn y terfynau amser ar gyfer cyflwyno hawliad i dribiwnlys os yw'r gweithdrefnau datrys anghydfod ar y gweill yn y man gweithio (para. 21);

- Newid y ffordd y bernir diswyddiadau annheg, fel bod modd anwybyddu rhai diffygion yn y weithdrefn, ar yr amod bod yr isafswm safonau gweithdrefnol wedi'i fodloni (para. 32);

- Gosod amserlen ystyriol ar gyfer gweithredu'r newidiadau hyn fel y caiff cyflogwyr a gweithwyr ddigon o amser i'w deall a'u gweithredu (para 27);

- Ategu'r newidiadau â gwybodaeth a chanllawiau cynhwysfawr (para. 27);

Mesurau cwyno a mesurau disgyblu mewnol

12. Cynigiodd y ddogfen ymgynghori y dylai cyflogwyr a gweithwyr fabwysiadu a defnyddio isafswm safonau gweithdrefnol yn y man gweithio fel ffordd i godi safon y gwaith o reoli anghydfodau yn y man gweithio.

13. Cafwyd sylwadau ar y cynigion hyn gan ryw 40% o'r ymatebwyr. Rhoddwyd cydnabyddiaeth eang i werth pennu safonau ar gyfer rheoli anghydfodau yn y man gweithio, er mwyn gwella'r gwaith o drafod anghydfodau a lleihau'r angen i ymgyfreitha. Dywedodd y CBI fod ei aelodau'n derbyn yn llwyr y dylid annog cyflogwyr a gweithwyr i ddatrys anghydfodau mor gynnar â phosibl ac y dylid edrych ar ymgyfreitha fel y dewis olaf. Pwysleisiai llawer fod angen rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r isafswm safonau gweithdrefnol a mynegwyd rhai pryderon fod lle i ddrysu rhwng yr isafswm safonau, fel y'i nodwyd yn y papur ymgynghori, a'r arferion da a geir yng Nghod Ymarfer y Gwasanaeth Ymgynghorol Cymodi a Chymrodeddu (ACAS) ar Weithdrefnau Cwyno a Disgyblu. Yr oedd y CBI a chyrff eraill i gyflogwyr yn croesawu'r gweithdrefnau drafft a nodwyd yn y papur ymgynghori, y credent eu bod yn syml yn eu dull, ac yn annog y Llywodraeth i beidio â mynd y tu hwnt iddynt. Nododd aelod o'r farnwriaeth fod cyflogwyr bach yn aml yn colli achosion diswyddo annheg am

nad oes ganddynt weithdrefnau; neu am fod y gweithdrefnau sydd ganddynt yn hollol annigonol. Croesawodd Cyngor y Busnesau Bach (SBC) yr isafswm safonau gweithdrefnol arfaethedig, ond pwysleisio bod angen egluro na fyddai dilyn y safonau ohono'i hun yn diogelu cyflogwyr rhag colli ceisiadau am ddiswyddo annheg.

14. Yr oedd y mwyafrif o'r undebau llafur ac ymatebwyr o wasanaethau ymgynghori yn awyddus hefyd na ddylai diffinio isafswm safonau gweithdrefnol danseilio'r arferion da ehangach a geir yng Nghod Ymarfer ACAS ar Weithdrefnau Cwyno a Disgyblu. Credai'r TUC y dylai'r gyfraith orfodi cyflogwyr i gael ac i barchu gweithdrefnau disgyblu a gweithdrefnau cwyno sy'n cydymffurfio â Chod Ymarfer ACAS, a allai gael ei symleiddio ar gyfer busnesau sy'n cyflogi llai nag 20 o weithwyr. Credai Cyngor y Busnesau Bach fod lle hefyd i gymysgu â Chod ACAS, a gofynnent am God symlach, wedi'i seilio ar yr isafswm safonau gweithdrefnol.

15. **Mae'r Llywodraeth am hybu datrys anghydfodau lle maent yn codi – yn y man gweithio. Gan hynny mae'n bwriadu deddfu i gyflwyno isafswm safonau ar gyfer gweithdrefnau disgyblu a chwyno, fel y gwelir yn y blwch isod, ac y dylai'r isafswm safonau hwn gael ei ymgorffori ym mhob contract cyflogaeth fel teler tybiedig. Pennir yr amserlen ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd yn y maes hwn er mwyn sicrhau y caiff cyflogwyr a gweithwyr ddigon o amser i ddod i delerau â'r newidiadau hyn cyn eu cyflwyno.**

Isafswm Safon Gweithdrefn Ddiswyddo a Gweithdrefn Ddisgyblu

Cam 1 – Rhaid i'r cyflogwr nodi mewn ysgrifen ymddygiad neu nodweddion honedig y gweithiwr, neu'r amgylchiadau eraill, a'i harweiniodd i ystyried diswyddo neu gymryd camau disgyblu yn erbyn y gweithiwr. Rhaid i'r cyflogwr anfon copi at y gweithiwr a gwahodd y gweithiwr i gyfarfod i drafod y mater.

Cam 2 – Rhaid i'r cyfarfod ddigwydd cyn i gamau gael eu cymryd, ac eithrio os atal yw'r camau disgyblu hynny. Rhaid i'r gweithiwr gymryd pob cam rhesymol i fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Ar ôl y cyfarfod, rhaid i'r gweithiwr hysbysu'r gweithiwr am ei benderfyniad ac am yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad os nad yw'n fodlon arno.

Cam 3 – Os yw'r gweithiwr yn dymuno apelio, rhaid iddo ddweud wrth y cyflogwr. Os gwnaiff hynny, rhaid i'r cyflogwr ei wahodd i gyfarfod pellach. Rhaid i'r gweithiwr gymryd pob cam rhesymol i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Nid oes angen i'r cyfarfod apêl ddigwydd cyn i'r camau diswyddo neu ddisgyblu ddod i rym. Ar ôl y cyfarfod apelio, rhaid i'r cyflogwr hysbysu'r gweithiwr am ei benderfyniad terfynol.

Safon wedi'i haddasu mewn achosion o gamymddygiad garw sy'n cyfiawnhau diswyddo dirybudd

Cam 1 – Rhaid i'r cyflogwr nodi mewn ysgrifen gamymddygiad honedig y cyn-weithiwr sydd wedi arwain at y diswyddo a hawl y cyn-weithiwr i apelio yn erbyn y diswyddo, ac anfon copi o'r datganiad at y cyn-weithiwr.

Cam 2 – Os yw'r cyn-weithiwr yn dymuno apelio, rhaid iddo ddweud wrth y cyflogwr. Os gwnaiff hynny, rhaid i'r cyflogwr ei wahodd i gyfarfod. Rhaid i'r gweithiwr gymryd pob cam rhesymol i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Ar ôl y cyfarfod apelio, rhaid i'r cyflogwr hysbysu'r gweithiwr am ei benderfyniad terfynol.

Isafswm Safon Gweithdrefn Gwyno Ffurfiol

Cam 1 – Rhaid i'r gweithiwr nodi'r gwyn yn ysgrifenedig ac anfon copi o'r gwyn at y cyflogwr.

Cam 2 – Rhaid i'r cyflogwr wahodd y gweithiwr i un cyfarfod o leiaf i drafod y gwyn. Rhaid i'r gweithiwr gymryd pob cam rhesymol i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Ar ôl y cyfarfod, rhaid i'r cyflogwr hysbysu'r gweithiwr am ei benderfyniad ynghylch ei ymateb i'r gwyn, a'i hysbysu am yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad os nad yw'n fodlon arno.

Cam 3 – Os yw'r gweithiwr yn dymuno apelio, rhaid iddo ddweud wrth y cyflogwr. Os gwnaiff hynny, rhaid i'r cyflogwr ei wahodd i gyfarfod pellach. Rhaid i'r gweithiwr gymryd pob cam rhesymol i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Ar ôl y cyfarfod apelio, rhaid i'r cyflogwr hysbysu'r gweithiwr am ei benderfyniad terfynol.

Safon gwyno wedi'i haddasu (os yw'r person sy'n cwyno yn gyn-weithiwr)

Cam 1 – Rhaid i'r gweithiwr nodi'r gwyn yn ysgrifenedig ac anfon copi o'r gwyn at y cyflogwr.

Cam 2 – Rhaid i'r cyflogwr nodi'r ymateb yn ysgrifenedig ac anfon copi at y gweithiwr.

Gofynion cyffredinol ar gyfer isafswm safonau gweithdrefn ddisgyblu a gweithdrefn gwyno

Amserlen: rhaid i bob cam o dan y gweithdrefnau gael ei gymryd heb oedi afresymol.

Cyfarfodydd: rhaid i amser a lleoliad y cyfarfodydd fod yn rhesymol, a rhaid i'r cyflogwr a'r gweithiwr gael cyfle i gyflwyno eu hochr hwy i'r achos yn y cyfarfod. Mewn cyfarfodydd apelio, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylai rheolwr uwch nag a fu'n bresennol yn y cyfarfod cyntaf gynrychioli'r cyflogwr. Nid yw'r gofyniad olaf hwn yn gymwys os aeth y rheolwr uchaf i'r gwrandawiad cyntaf, er enghraifft mewn achosion penodol mewn mentrau bach a chanolig.

Swyddogaeth gweithdrefnau mewnol mewn tribiwnlys

16. Amlinellodd y ddogfen ymgynghori ddau fesur posibl i fod yn sail ar gyfer mabwysiadu a defnyddio gweithdrefnau yn y man gweithio. Y mesur cyntaf oedd na fyddai ceisiadau i dribiwnlysoedd yn cael eu derbyn, ran amlaf, oni bai fod gweithdrefnau disgyblu neu weithdrefnau cwyno wedi'u cwblhau yn y man gweithio. Yr ail oedd y dylai dyfarniadau gael eu haddasu i gymryd i ystyriaeth fethiant afresymol gan y cyflogwr neu'r gweithiwr i ddefnyddio'r isafswm safonau gweithdrefnau. Cydnabyddir y bydd yna sefyllfaoedd lle bydd yn rhesymol methu â dilyn rhai neu'r cyfan o'r safonau gweithdrefnol, er enghraifft, mewn achosion o fwlio neu drais neu pan fydd y naill barti neu'r llall yn gwrthod cydweithredu.

17. Yr oedd yr ymatebwyr yn gyson o blaid yr egwyddor y dylai partïon geisio datrys anghydfodau yn y man gweithio cyn gwneud cais i'r tribiwnlys. Yr oedd y mwyafrif o'r cynrychiolwyr busnes a fynegodd farn ar hyn, gan gynnwys Cyngor y Busnesau Bach, yn gryf o blaid y cynnig i'w gwneud yn ofynnol bod gweithdrefnau datrys anghydfodau mewnol wedi'u cwblhau cyn y caiff tribiwnlys cyflogaeth dderbyn hawliad. Credent fod hyn yn allwedd ar gyfer gwella rheolaeth anghydfodau. Credai aelodau'r CBI mai dim ond anfon yr arwydd cryfaf posibl i unigolion fod gweithdrefnau mewnol yn bwysig a fyddai'n sicrhau y caent eu defnyddio. Er hynny, dywedodd llawer a ymatebodd y byddai ei gwneud yn ofynnol cwblhau'r gweithdrefnau hyn cyn y gallai tribiwnlys dderbyn cais yn creu anawsterau ymarferol. Rhai o'r enghreifftiau a roddwyd oedd: amau sut i benderfynu pryd y byddai gweithdrefnau wedi'u cwblhau yn achos cais sy'n destun dadl; a allai'r naill barti neu'r llall ddefnyddio'r gofyniad i ymestyn y gweithdrefnau; a fyddai'n hybu dadleuon cyfreithiol hirfaith. Mynegodd y TUC ac eraill â phrofiad o helpu ceiswyr amheuon difrifol ynghylch sut y byddai'r cynnig hwn yn gweithio yn ymarferol.

"Yn nhermau'r cynnig, ceir sawl anhawster ymarferol. Nid lleiaf nad yw bob amser yn glir pryd y mae'r weithdrefn wedi'i chwblhau a hefyd, fe allai'r weithdrefn gael ei harafu ac weithiau ei gohirio bron yn llwyr." ASLEF

18. Cafwyd cefnogaeth gref o blaid ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i dribiwnlys cyflogaeth i ganiatáu i weithdrefnau ddigwydd, ond peth pryder y gallai hyn arwain at oedi diangen cyn penderfynu ar hawliadau. Cafwyd cefnogaeth gref gan bob grŵp, gan gynnwys y CBI a'r TUC, i'r cynnig y dylai lefel dyfarndaliadau'r tribiwnlysoedd gael ei chodi neu ei gostwng i gymryd i ystyriaeth fethiant afresymol gan y cyflogwr neu'r gweithiwr i ddefnyddio'r isafswm safonau gweithdrefnol. Credai pob ymatebydd a gyflwynodd sylwadau fod y cynnig hwn yn arwydd o bwysigrwydd y gweithdrefnau. Credid y byddai'r gallu i addasu dyfarndaliadau pan na fyddai gweithiwr neu gyflogwr yn bodloni'r isafswm safonau gweithdrefnol yn annog mwy o bobl i gadw at yr isafswm safonau. Pwysleisiodd y CBI fod rhaid i'r mesur hwn gael ei gyflwyno gydag anghenion busnesau bach mewn cof. Yr oedd llawer o gynrychiolwyr cyflogwyr yn pryderu y byddai mân wyriadau oddi wrth yr isafswm safonau gweithdrefnol yn arwain at gynnydd yn y dyfarndaliad o dan y gyfraith achosion bresennol.

19. **Mae'r Llywodraeth yn bwriadu tanlinellu pwysigrwydd isafswm safonau gweithdrefn gwyno a gweithdrefn ddisgyblu yn y man gweithio drwy waith y system dribiwnlysoedd. Gan hynny, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i dribiwnlys gynyddu dyfarndaliad 10-50% fel rheol os bydd y cyflogwr yn methu'n afresymol â darparu neu ddilyn y safonau a ddangoswyd yn y blwch uchod, ac ar y llaw arall yn ei gwneud yn ofynnol i dribiwnlys ostwng y dyfarndaliad i weithiwr sydd wedi methu yn afresymol â'u defnyddio 10-50%. Er hynny, o dan amgylchiadau eithriadol lle byddai amrywiad ar y raddfa honno yn anghyfiawn neu'n annheg, bydd gan y tribiwnlysoedd y disgresiwn i**

amrywio'r dyfarndaliad yn ôl canran is neu i beidio ag amrywio'r dyfarndaliad o gwbl.

20. Bydd y Llywodraeth yn gweithredu hefyd i gefnogi deialog yn y man gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithwyr godi eu pryderon gyda'u cyflogwyr cyn i'w hawliad gael ei dderbyn gan dribiwnlys. Ni fydd cwynion sydd heb eu codi o gwbl yn y man gweithio yn gallu cael eu derbyn yn hawliadau gan dribiwnlys, oni bai fod gan y gweithiwr seiliau rhesymol dros beidio â gwneud hynny, er enghraifft mewn achosion o fwlio neu fygwth difrifol.

21. Estynnir y terfynau amser ar gyfer gwneud cais i dribiwnlys o dri mis os oes hawliad wedi'i gyflwyno, neu os yw'r gweithdrefnau wedi dechrau ond heb eu cwblhau, o fewn y terfynau amser presennol ar gyfer gwneud hawliadau. Gellir cael estyniadau pellach o hyd at ddau fis os yw'r ddau barti o blaid hynny. Bydd estyn y terfynau amser fel hyn yn caniatáu amser ar gyfer deialog yn y man gweithio, heb ymestyn y gwaith o benderfynu ar hawliadau yn amhriodol.

22. Ym mhob achos disgwylir y dylynir <u>naill ai</u> isafswm safon y weithdrefn disgyblu <u>neu</u> isafswm safon y weithdrefn gwyno (nid y ddau). Ni fydd y gofyniad i ddilyn y safonau hyn yn gymwys fel rheol os yw'r anghydfod wedi'i drin fel cwyn gyfun. Disgwylir i geiswyr sy'n gwneud cais am ddiswyddo annheg adeiladol ddefnyddio isafswm safon y weithdrefn gwyno cyn ymddiswyddo (neu'r safon wedi'i haddasu wedyn), oni bai mai camau disgyblu a gymerwyd yn eu herbyn gan y cyflogwr yw'r rheswm dros ymddiswyddo a thros eu honiad eu bod wedi'u diswyddo'n adeiladol.

<u>Datganiadau Ysgrifenedig</u>

23. Yn y ddogfen ymgynghori pwysleisiwyd gwerth datganiad ysgrifenedig o delerau cyflogaeth (gofyniad statudol ar hyn o bryd ar bob cyflogwr) wrth sicrhau

eglurder ynghylch telerau ac amodau penodi. Cynigiwyd cyflwyno sancsiynau newydd i gryfhau'r cydymffurfedd. Hefyd, cynigiwyd dileu'r esemptiad presennol i gyflogwyr â llai nag 20 o weithwyr rhag y gofyniad i gynnwys manylion gweithdrefnau disgyblu neu weithdrefnau cwyno yn y datganiad ysgrifenedig. At hynny, gofynnwyd am sylwadau ar a oes angen canllawiau pellach neu ddeunydd arferion da i sicrhau bod cyflogwyr yn gwybod am eu rhwymedigaethau i roi'r datganiadau hyn ac yn gallu eu bodloni.

24. Pwysleisiai'r cwmnïau bach a ymatebodd y byddai angen ategu unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth â gwybodaeth a chanllawiau helaeth, yn arbennig i gwmnïau bach. Cydnabyddai'r ymatebwyr werth y datganiad ysgrifenedig mewn arferion cyflogi da.

"*Os yw'r weithdrefn yn effeithiol ac yn hawdd ei rheoli, yna ni ddylid rhoi unrhyw eithriad."* Cyngor y Busnesau Bach

25. Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a fynegodd sylwadau yn cytuno â'r cynnig i roi iawndal ychwanegol i weithiwr i adlewyrchu diffyg datganiad ysgrifenedig, er bod y CBI a'r EEF yn credu na fyddai hynny'n hybu arferion gwell. Credai aelodau'r CBI mai anaml y byddai cyflogwyr yn bwriadol osgoi eu rhwymedigaeth, a bod angen, yn hytrach, fwy o ganllawiau. Credai ambell gyflogwr na ddylid defnyddio sancsiwn oni bai fod niwed wedi'i brofi. Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid dileu'r trothwy ar gyfer cwmnïau bach, gan gynnwys y CBI a gredai y byddai gofyn i bob cwmni gynnwys yr wybodaeth hon yn eu telerau ac amodau cyflogi yn fecanwaith delfrydol ar gyfer sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu cyfleu'n iawn i'r gweithwyr. Credai rhai cyflogwyr a'u cyrff y gallai datganiad ysgrifenedig osod baich ar gwmnïau bach iawn. Credai rhai o'r rhain y dylai'r trothwy o ugain o weithwyr (nad yw'n gymwys ond ar gyfer cynnwys manylion gweithdrefnau yn y datganiad ysgrifenedig, nid i'r gofyniad i gael datganiad o gwbl) gael ei gadw, ond ei ostwng. Yr oedd

ymatebwyr eraill, gan gynnwys y TUC a Chymdeithas y Cyfreithwyr, o blaid y cynigion hyn ond yn credu y dylai cyflogwyr nad ydynt yn rhoi datganiad ysgrifenedig i'w gweithwyr gael eu cosbi, p'un a oes dyfarniad yn cael ei wneud ar fater arall neu beidio.

26. Wrth fynegi sylwadau ar y cynigion hyn, tynnodd rhyw un rhan o dair o'r ymatebwyr sylw yn benodol at yr angen am fwy o wybodaeth a chanllawiau, yn arbennig ar gyfer busnesau bach a micro-fusnesau. Credent fod cynhyrchu a chyhoeddi canllawiau a dulliau ymarfer da yn rhan hanfodol o weithredu'r cynigion hyn.

27. **Mae'r Llywodraeth o'r farn mai'r datganiad ysgrifenedig o delerau ac amodau cyflogaeth yw sylfaen y berthynas gyflogi ac mai dyma'r pwynt cyntaf i gyfeirio ato pan geir anghydfod. I sicrhau bod gweithwyr yn gwybod eu hawliau a'u rhwymedigaethau, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i <u>bob</u> cyflogwr gynnwys yn y datganiad ysgrifenedig fanylion eu gweithdrefn ddisgyblu a'u gweithdrefn gwyno, a fydd o leiaf yn gorfod bodloni'r safon a nodwyd yn y blwch uchod. Mae'r Llywodraeth yn dymuno gwella'r cydymffurfedd â'r rhwymedigaeth i hysbysu telerau ac amodau eu cyflogaeth i weithwyr. Gan hynny, bydd yn darparu i dribiwnlysoedd cyflogi gynyddu swm dyfarndaliad i weithiwr i adlewyrchu diffyg datganiad ysgrifenedig. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod bod angen codi ymwybyddiaeth o werth datganiadau ysgrifenedig yn y cwmnïau lleiaf. Darperir canllawiau ar y darpariaethau hyn – ac ar yr isafswm safonau gweithdrefnau – mewn da bryd cyn eu gweithredu. Ategir y canllawiau hyn drwy ehangiad arfaethedig gwasanaethau cynghori ACAS (gweler paragraff 29).**

Gwasanaethau Cynghori

28. Amlygodd yr ymatebion ategiad clir i'r rôl bwysig y mae ACAS yn ei chwarae a gwerth ei waith cynghori. Galwodd llawer ar i ACAS gryfhau ei rôl gynghori. Credai'r ymatebwyr y dylai ACAS, Gwasanaeth y Busnesau Bach, cymdeithasau masnach a gwasanaethau cynghori eraill i gyd gydweithio'n agos.

29. **Mae'r Llywodraeth yn llwyr gefnogi rôl gynghori ACAS wrth roi mwy o gymorth i fusnesau bach ac y dylai ACAS weithio'n agosach gyda Gwasanaeth y Busnes Bach a gwasanaethau cynghori eraill yn hyn o beth. Mae'n cydnabod gwerth y gwaith hwn ac yn croesawu cynnig ACAS i ehangu ei raglen o wasanaethau hyfforddi a chyflwyno'i wasanaethau'n electronig, megis datblygu dewisiadau e-ddysgu.**

Asesiad o Effaith Rheoleiddio

30. Amcan cynigion y bennod hon yw gwella gwaith datrys anghydfodau yn y man gweithio. Prif effaith y cynigion felly yw gostwng nifer y ceisiadau i dribiwnlysoedd cyflogaeth rhwng 30,000 a 40,000 o achosion y flwyddyn. Yr ydym yn rhagdybio y bydd yn cymryd blwyddyn i'r buddion ddechrau dod i'r amlwg. Bydd **cyflogwyr** yn **arbed** rhwng **£60 ac £80 miliwn** ym mlwyddyn 2 a phob blwyddyn wedyn ar ôl cyflwyno'r cynnig am fod anghydfodau'n cael eu datrys ynghynt. Bydd y **trethdalwr** yn **arbed** rhwng **£11 a £15 miliwn** o flwyddyn 2 ymlaen. Mae cyflwyno'r isafswm safon gweithdrefnau yn arwain at **gostau** i gyflogwyr o **rhwng £46 ac £86 miliwn** ym mlwyddyn un. Costau gweithredu unwaith-yn-unig yw'r rhain. Mae defnyddio'r gweithdrefnau yn costio rhwng **£46 a £90 miliwn** y flwyddyn i fusnesau. Mae buddion nad oes modd eu mesur yn deillio o'r cynnig ar ffurf gwell cysylltiadau cyflogaeth. Mae hyn yn lleihau lefelau tyndra i weithwyr a gall wella perfformiad yn y man gweithio er lles y cyflogwyr.

Deddfwriaeth Diswyddo Annheg

31. Ar yr amod bod yr isafswm safonau gweithdrefnol uchod wedi'u bodloni, cynigiodd y ddogfen ymgynghori hefyd y dylai tribiwnlysoedd anwybyddu camgymeriad gan gyflogwr yn y weithdrefn wrth ddiswyddo rhywun, pe na buasai hynny'n gwneud gwahaniaeth i'r canlyniad. Ymateb cymysg a gafwyd ar ragoriaethau'r cynnig. Yr oedd y cyflogwyr a'u cynrychiolwyr, gan gynnwys y CBI, yn gryf o'u plaid. Credent mai ar ragoriaethau'r achos y dylai'r pwyslais fod. Nodwyd y byddai torri'r isafswm safonau gweithdrefnol yn golygu cynnydd yn y dyfarndaliad. Yr oedd eraill, gan gynnwys y TUC, yn gwrthwynebu'r cynnig, a oedd yn eu barn hwy yn anfon y negeseuon anghywir ynghylch defnyddio'r gweithdrefnau. Yr oedd aelodau Cyngor Cadeiryddion y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth wedi'u rhannu'n gyfartal ar y materion trafod. Mae'r rhai sydd o blaid y cynnig yn credu mai anfynych y mae penderfyniadau sy'n ymwneud â chamgymeriadau felly yn bodloni'r naill barti neu'r llall. Yn hytrach, maent yn arwain yn aml at ddrysu'r ddau barti ynghylch a ydynt wedi ennill neu golli mewn gwirionedd.

"Mae'n ymddangos y byddai'n gall caniatáu i dribiwnlysoedd anwybyddu camgymeriadau yn y weithdrefn pe na buasai unrhyw wahaniaeth yng nghanlyniad yr achos. Ar sail profiad, mae rheolwyr yn cael eu harwain i ddilyn gweithdrefnau'n gaeth yn hytrach na chanolbwyntio ar fynd at y ffeithiau a'u hystyried yn llawn." Cyngor Sir Northumberland.

32. **Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr ond mae hefyd yn cydnabod nad yw'n deg cosbi cyflogwr am ddiffyg sydd heb wneud unrhyw wahaniaeth i ganlyniad diswyddiad. Gan hynny mae wedi penderfynu gweithredu i sicrhau bod tribiwnlysoedd yn anwybyddu camgymeriadau yn y weithdrefn, y tu hwnt i ddilyn yr isafswm safonau, pe na buasai dilyn y gweithdrefnau llawn wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r canlyniad.**

Asesiad o Effaith Rheoleiddio

33. Disgwylir i'r cynnig greu gostyngiad bach yn nifer y ceisiadau. Rhwng £6 ac £8.5 miliwn fydd y **buddion** i gyflogwyr. Mae'r **buddion** i'r trethdalwr rhwng £0.9 ac £1.5 miliwn. Mae yna **gostau** i geiswyr yn nhermau dyfarndaliadau a gollir (£1.4 - £3.5 miliwn) ac i gyflogwyr os na fydd ceiswyr, a allai fod wedi setlo'u cais, yn gwneud hynny mwyach (£4 i £6.1 miliwn). Ceir costau ychwanegol, rhwng £1.8 a £5.4 miliwn, i'r trethdalwr.

PENNOD TRI – HYRWYDDO CYMODI

Bydd y Llywodraeth yn gweithredu i wneud y canlynol

- Hyrwyddo ffyrdd cyfeillgar ac amserol o setlo hawliadau tribiwnlysoedd cyflogaeth drwy gyflwyno cyfnod penodedig ar gyfer cymodi (para. 37);

- Ehangu cwmpas cytundebau cyfaddawd (para. 41);

- Hybu defnyddio gweithdrefnau amgen ar gyfer datrys anghydfodau (para. 43).

Cyfnod cymodi penodedig

34. Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau o blaid y cynnig i sefydlu cyfnod penodedig i ACAS gymodi hawliadau tribiwnlys yn wirfoddol. Ar hyn o bryd, caiff tri chwarter yr hawliadau i'r tribiwnlysoedd eu setlo neu eu tynnu'n ôl cyn i wrandawiad tribiwnlys ddigwydd. Mewn llawer o achosion felly, bydd y tribiwnlys wedi gwastraffu amser ac ymdrech ar yr hawliadau hyn, sef amser y byddai'n well ei dreulio ar geisiadau y mae angen penderfyniad ar eu cyfer. Nod y cynnig hwn yw annog partïon sy'n fodlon setlo'u hawliad yn gyfeillgar i wneud hynny'n gynnar ym mhroses y tribiwnlys. Dywedodd un cwmni o gyfreithwyr y gallai'r cynnig "fod o fantais fawr i ddatrys anghydfodau." Credai'r mwyafrif a ymatebodd y byddai'r gallu i ymestyn y cyfnod amser, pe bai'r cymodwr yn gweld yn dda, yn rhan hanfodol o'r cynnig. Galwodd rhai, gan gynnwys y TUC, am i'r ddau barti orfod datgelu pob dogfen berthnasol mor gynnar â phosibl. Credai aelodau'r CBI fod gwerth yn y cynnig, ond yr oeddent

yn awyddus bod cymodi yn bosibl y tu allan i'r cyfnod penodedig pe bai'r amgylchiadau'n newid ac yn gwneud cymodi yn ddewis synhwyrol.

35. Credai ACAS fod gwerth yn y cynnig, ond bod angen cloriannu effaith cyfnod cymodi penodedig yn helaethach. Credent y gallai helpu i hybu setlo amserol, yn arbennig yn yr awdurdodaethau hynny lle mae cysylltiadau cynnar â'r partïon yn creu effaith gadarnhaol.

36. O'r rhai ag amheuon am y cynnig, credai rhai fod dyddiad y gwrandawiad yn unig yn hoelio sylw'r partïon ar setlo; a bod cyfyngu'r cyfnod cymodi yn golygu y gallai amser cymodi gwerthfawr gael ei golli. Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn anochel na fydd rhai partïon yn cytuno tan y funud olaf un. Er hynny, dylai cyfyngu'r cyfle i ddefnyddio gwasanaethau ACAS wneud cryn dipyn i annog y partïon i ganolbwyntio ar ddatrys yr anghydfod cyn i'r hawliad gael ei restru ar gyfer gwrandawiad. Bydd yn bosibl i ACAS estyn y cyfnod cymodi os bydd cymodwyr o'r farn bod modd dod i setliad yn gyflym.

37. **Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno cyfnod penodedig i ACAS gymodi, a darparu ar gyfer estyn y cyfnod o dan reolaeth ofalus os bydd y cymodwr yn credu ei bod yn debyg iawn y ceir setliad o fewn amser byr. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau y caiff effaith y cynnig ei hastudio a'i chloriannu.**

Asesiad o Effaith Rheoleiddio

38. Disgwylir i'r cynnig arwain at ostyngiad yn nifer y gwrandawiadau, wrth i fwy o achosion gael eu cymodi. Bydd hefyd yn rhyddhau amser tribiwnlysoedd i ganolbwyntio ar achosion nad ydynt yn setlo. Mae hyn yn arwain at **fuddion** i **gyflogwyr** o **£32 a £65 miliwn** ac i'r **trethdalwr** o rhwng **£1.5 a £3 miliwn**. Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion a gymodir hefyd o les i **unigolion**, sef rhwng

£0.7 a £2.4 miliwn. Mae'r **costau** i gyflogwyr rhwng **£0.7 a £2.4 miliwn**. Gall rhai **unigolion** setlo am symiau iawndal llai **(£0.4 - £1.4 miliwn).** Gellid cael effaith ar weithgareddau ACAS. Ar y cyfan, disgwylir i'r cynnig greu buddion net. Hefyd fe allai gwella cyfradd y cymodi gael effaith gadarnhaol ar y berthynas gyflogi yn ei chyfanrwydd. Nid oes modd mesur y buddion hyn.

Ehangu cwmpas cytundebau cyfaddawdu

39. Cynigiodd y ddogfen ymgynghori y dylid ehangu cwmpas cytundebau cyfaddawdu, fel eu bod yn gyfartal â COT3 ACAS yn nhermau eu gallu i ganiatáu i unigolion gontractio allan o'u hawliau cyflogaeth. Cafodd hyn dderbyniad da. Croesawyd y cynnig gan y CBI, am ei fod, yn eu barn hwy, yn gallu gostwng y pwysau ar ACAS hefyd. Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr eraill a gyflwynodd sylwadau ar y cynnig yn credu y byddai'n cynnig mwy o ddewis wrth fynd i'r afael ag anghydfod. Dywedodd un cwmni o gyfreithwyr ei fod yn "gam defnyddiol ymlaen". Er hynny, credai'r TUC fod y cynnig yn ddiangen. Awgrymai eraill y dylai ACAS gael eu cynnwys mewn achosion cyn i'r cais i dribiwnlys gael ei gyflwyno neu y dylai undebau llafur a/neu gymdeithasau llafur gynnig gwasanaethau cymodi neu gymrodeddu i helpu i ddatrys achosion yn y man gweithio.

40. Yr oedd un ymatebydd o blaid defnyddio ffurflen safonol ar gyfer cytundeb cyfaddawdu, fel ffordd o atal y cytundebau rhag amrywio'n rhy eang.

41. **Bydd y Llywodraeth yn diwygio'r ddeddfwriaeth i ehangu cwmpas cytundebau cyfaddawdu**.

Cyrff eraill i gymodi

42. Ymateb cymysg a gafwyd i'r cynnig y dylid newid y gyfraith i ganiatáu i gyrff eraill ddarparu gwasanaethau cymodi ar yr un sail ag ACAS. Cafwyd awydd cryf i osgoi unrhyw newid a allai ragfarnu didueddwch a hygrededd ACAS. Credai

rhai ymatebwyr na fyddai'r syniad yn debyg o weithio yn ymarferol; credai eraill, gan gynnwys y CBI, fod y syniad yn un da o ran egwyddor, yn dibynnu ar y cwestiynau ynghylch didueddwch a chysondeb. Cafwyd teimlad cryf hefyd na ddylid gwyro adnoddau oddi wrth swyddogaeth cynghori a chymodi ACAS i ymdrin ag achredu. Cytunodd ACAS â'r rhai a gredai y byddai angen archwilio cyrff eraill yn ofalus iawn pe baent yn cael eu cynnwys. Mynegodd ACAS bryder ynghylch unrhyw newid a fyddai'n peryglu cywirdeb y broses cymodi.

> *"Dywedodd yr aelodau hefyd fod ganddynt ffydd arbennig yn ansawdd gwasanaethau ACAS ac nad ydynt am i'r Llywodraeth ddefnyddio'r cynnig hwn i leihau arian na statws ACAS"*. CBI

43. **O gofio'r diffyg diddordeb ymhlith defnyddwyr mewn mabwysiadu'r newid hwn a'r risg o dynnu sylw ACAS oddi ar ei brif swyddogaethau, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn**.

Dulliau amgen o ddatrys anghydfodau

44. Ychydig yn unig o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y cynigion hyn. O'r rhai a wnaeth, yr oedd y mwyafrif o blaid, ac yn gweld lle i ddefnyddio mwy ar wasanaethau cymodi a mwy ar gymorth gan wasanaethau cynghori busnes. Trafododd y ddogfen ymgynghori bosibilrwydd ehangu'r Gronfa Bartneriaeth a phosibilrwydd rhoi rhagor o arian ar gyfer projectau sy'n datblygu arferion da mewn dulliau amgen o ddatrys anghydfodau a chymodi.

45. Cyhoeddodd y Llywodraeth bedwaredd alwad am geisiadau i'r Gronfa Bartneriaeth ar 22 Hydref. Caiff projectau i roi sylw i ddulliau amgen o hybu anghydfodau eu hannog. Mae'r Gronfa Bartneriaeth wedi'i defnyddio yn barod i ddatblygu gwell dulliau o ddatrys anghydfodau yn y man gweithio. I gael manylion pellach am y Gronfa Bartneriaeth, edrychwch ar y wefan ar: www.dti.gov.uk/partnershipfund.

Gwneud y gorau o Bartneriaeth

Mae AMEC Rail Cyfyngedig yn is-gwmni canolig i gwmni peiriannu ac adeiladu mawr. Bu'n llwyddiannus yn ei gais i Gronfa Bartneriaeth y DTI am broject i wella dulliau datrys anghydfodau mewn partneriaeth ag Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffyrdd, Môr a Thrafnidiaeth.

Bu'r arian a gafodd oddi wrth fenter y DTI yn fodd i gynnal nifer o weithdai ar y cyd â chynrychiolwyr etholedig yr undebau llafur ar Gyngor y Cwmni a rheolwyr o wahanol lefelau o fewn y cwmni.

Yn y gweithdai hyn cafwyd hyfforddiant ar y cyd ar weithdrefnau'r cwmni ac ymdrin hefyd a materion amrywiol a oedd yn peri pryderon ac anawsterau. Maent wedi bod yn fodd i sefydlu rhwydweithiau rhwng y rheolwyr a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur y tu allan i beirianwaith ffurfiol y cwmni. Yn sgil hyn, mae llawer o broblemau staff yn cael eu codi a'u datrys ar y lefel iawn, heb droi at weithdrefn gwynion y cwmni. Mae hyn o les i bawb, gyda phroblemau'n cael eu datrys yn gyflym, drwgdeimlad posibl yn cael ei osgoi, ac arbedion hefyd yn amser y rheolwyr.

Mae'r perthnasoedd hyn wedi arwain at sefydlu cyfarfodydd cyson lle mae'r cwmni'n amlinellu eu syniadau ar gyfer newid ac yn gofyn i gynrychiolwyr yr Undebau Llafur gyfrannu cyn i unrhyw gynigion cadarn gael eu llunio. Mae mabwysiadu'r drefn hon wedi rhoi llawer o fanteision o ran cyrraedd cytundeb yn gynt, cyfarfodydd cynhyrchiol yn hytrach na rhai seithug a gwell gweithdrefnau. Mae hefyd yn golygu nad yw anghydfodau diangen yn codi.

PENNOD PEDWAR – MODERNEIDDIO TRIBIWNLYSOEDD CYFLOGAETH

Bydd y Llywodraeth yn gweithredu i wneud y canlynol:

- Cyflwyno llwybr cyflym ar gyfer ceisiadau didrafferth mewn tribiwnlysoedd (para. 70);

- Darparu ar gyfer mwy o gysondeb yn y ffordd y mae'r tribiwnlysoedd yn prosesu hawliadau drwy alluogi Llywyddion Tribiwnlysoedd Cyflogaeth i roi cyfarwyddiadau arfer (para. 77);

- Rhoi canllawiau clir ar y gyfundrefn gostau (para. 55);

- Gwneud newidiadau i'r gyfundrefn gostau i ganiatáu i dribiwnlysoedd gynnwys, wrth gyfrifo dyfarndaliadau yn erbyn ymddygiad afresymol, gyfraniad at yr amser y mae'r ceisydd neu'r gwrthapelydd wedi'i dreulio yn paratoi'r achos (para. 59); darparu i ddyfarniadau costau gael eu gwneud yn erbyn cynrychiolwyr sy'n codi tâl am eu gwasanaethau (para. 57); ac ystyried ymhellach a ddylid cryfhau'r rhagdybiaeth bod tribiwnlysoedd yn dyfarnu costau yn erbyn ceiswyr neu ymatebwyr sy'n cyflwyno achos gwan, neu sydd fel arall yn ymddwyn yn afresymol wrth gyflwyno'u hawliad neu wrth ei gynnal (para. 63);

- Ei gwneud yn haws i dribiwnlysoedd ddileu cais neu ymateb gwan mewn adolygiad cyn y gwrandawiad (para. 66);

- Cysoni'r gyfundrefn costau ar gyfer Tribiwnlysoedd Apelau Cyflogaeth (EAT) â thribiwnlysoedd cyflogaeth (para. 60);

- Cyflwyno ffurflenni cais a ffurflenni ymateb gorfodol ar gyfer hawliadau a newid y system o gofrestru ceisiadau'n gyhoeddus (para. 75);

- Sefydlu Tasglu i gynghori a ddylid a sut y dylid gwneud y system tribiwnlysoedd cyflogaeth yn fwy effeithlon, cost-effeithiol, a defnyddiwr-ganolog, i fodloni'r galwadau sydd arni (para. 50).

Ni fydd cynigion i gyflwyno ffioedd am geisiadau a gwrandawiadau tribiwnlysoedd, ac i gynnwys manylion pellach hawliadau ar y gofrestr gyhoeddus, yn mynd yn eu blaen.

46. Nododd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori raglen o newid ar gyfer y system dribiwnlysoedd. Yr oedd yr ymatebwyr yn llethol o blaid yr angen am newid. Gresynai rhai at yr hyn a welent fel ymagwedd fwyfwy cyfreithlyd y system, a galwai llawer am olwg ehangach ar y ffordd y mae'r system yn gweithio.

Codi tâl am geisiadau i dribiwnlysoedd a gwrandawiadau tribiwnlys

47. Cafwyd gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig i gyflwyno cyfundrefn daliadau (dwy ran o dair o'r rhai a gyflwynodd sylwadau). Bwriad y cynnig oedd codi arian i wella gwasanaethau tribiwnlysoedd a gwasanaethau cymodi drwy geisio cael cyfraniad at gost penderfynu ar eu hawliad oddi wrth y defnyddwyr hynny a oedd yn gallu fforddio cyfrannu.

48. Yr oedd y CBI o blaid y cynnig, gan gredu y byddai'n darparu ffynhonnell werthfawr o arian ar gyfer system sydd wedi'i llethu ar hyn o bryd ac yn cysoni'r gwasanaeth tribiwnlysoedd â system y llysoedd. Credai'r CBI a rhai ymatebwyr eraill y byddai codi tâl am geisiadau a gwrandawiadau yn hwb i ddatrys rhagor o anghydfodau yn y man gweithio. Er hynny, credai'r cyrff sydd â mwyaf o brofiad o ymdrin â cheiswyr y byddai hyn yn ataliad sylweddol i weithwyr isel eu tâl, yn arbennig pan fyddai gwerth y cais yn fach o ran arian, er gwaethaf y cynnig i esemptio'r rhai sydd ar fudd-dâl neu sy'n methu â thalu. Credai nifer o gyflogwyr ei bod yn annerbyniol i ymatebwyr tribiwnlys dalu ffi am ddod i wrandawiad.

49. Fe'i gwnaed yn glir yn y ddogfen ymgynghori mai ariannu rhagor o fuddsoddiad ar gyfer system y tribiwnlysoedd cyflogaeth oedd bwriad codi tâl. Er hynny, oherwydd pryderon llawer o grwpiau defnyddwyr am y cynnig, ni chaiff ei symud ymlaen.

50. Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu Tasglu System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth. Bydd y Tasglu yn ystyried sut y gall gwasanaethau gael eu gwneud yn fwy effeithlon a chost-effeithiol i ddefnyddwyr ac yn cynghori yn arbennig ar yr angen am fuddsoddiadau newydd i fodloni safonau gwasanaeth. Efallai hefyd y bydd y Tasglu am ystyried agweddau gweithredol ar y rhaglen o ddiwygiadau a nodir yn y ddogfen hon. Ceir manylion y Cylch Gwaith yn Atodiad C.

Talu treuliau gan Wasanaeth y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

51. Pe bai tâl am wneud cwyn i dribiwnlys cyflogaeth yn cael ei gyflwyno, cynigiodd "Routes to Resolution" y byddai'n dilyn y dylid dileu'r treuliau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd i bartïon mewn cysylltiad â chynnal a gwrando'r achos. Cynigiwyd y dylai partïon sydd mewn gwir angen barhau i gael treuliau pe bai hynny'n angenrheidiol i fynd ar drywydd eu hachos.

52. Yr oedd yr ymatebion a gyflwynodd sylwadau ar ddileu treuliau yn pryderu y byddai hyn hefyd yn atal ceisiadau. **Gan hynny nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn.**

Dyfarnu Costau

53. Awgrymodd y ddogfen ymgynghori nifer o newidiadau posibl yn y ffordd o ymdrin â chostau mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth. Bwriad y gyfundrefn gostau yw atal ymddygiad afresymol gan y naill barti neu'r llall neu eu cynrychiolwyr. Un tynn yw diffiniad ymddygiad afresymol – mae'n golygu na ddylai'r naill barti na'r llall gyflwyno achos sydd heb wir obaith o lwyddo, na gweithredu'n flinderus, yn sarhaus, yn aflonydd nac fel arall yn afresymol wrth gyflwyno'u hawliad neu ei gynnal. Nid yw'r mwyafrif mawr o hawliadau i dribiwnlys (ceisiadau ac ymatebion) yn dod o dan y diffiniad hwn; er bod eu gobaith o lwyddo yn ansicr, mae modd dadlau o'u plaid yr un fath.

54. Mewn trafodaethau gyda'r rhai sy'n cynrychioli ceiswyr yn ystod y cyfnod ymgynghori, tanlinellwyd pryder y gallai ofn dyfarniad costau gormodol atal rhai ceiswyr. Honnai rhai fod y newidiadau i'r gyfundrefn gostau a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf wedi'u camddeall yn eang gan geiswyr, a bod cyflogwyr diegwyddor yn defnyddio'r sefyllfa i godi braw ar weithwyr. Yn ymarferol, anghyffredin yw i dribiwnlysoedd ddyfarnu costau (llai na 250 o ddyfarniadau costau a wnaed yn 2000/1 allan o 218,000 o geisiadau, a £295 oedd y dyfardaliad ar gyfartaledd). Dyfernir yn erbyn gwrthapelwyr yn ogystal â cheiswyr.

54. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryderon a fynegwyd am sut mae'r gyfundrefn gostau'n gweithredu. Bydd yn darparu cyngor a chanllawiau i sicrhau bod y defnyddwyr yn deall yn llawn sut mae'r gyfundrefn gostau yn gysylltiedig â'u cais ac i fynd i'r afael â thactegau codi brawf gan rai partïon.

Dyfarnu costau yn erbyn cynrychiolwyr sy'n codi tâl am eu gwasanaethau

56. Siaradodd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghori yn ffafriol am y cynnig y dylai cynrychiolwyr masnachol wynebu rhywfaint o sancsiwn am ymddygiad afresymol. Rhai sy'n codi tâl am eu gwasanaethau yw cynrychiolwyr masnachol, gan gynnwys er enghraifft, cyfreithwyr, bargyfreithwyr - yn eu plith cyfreithwyr mewnol - a chynghorwyr cyflogaeth, ond nid y sector dielw (er enghraifft undebau llafur, Canolfannau Cynghori a Chanolfannau Cyfraith). Cydnabu'r rheiny a gyflwynodd sylwadau ar y cynnig hwn fod rhai cynrychiolwyr yn ymddwyn yn wael wrth fynd ar drywydd achos eu cleient a bod angen rheoleiddio cynrychiolwyr yn niffyg system drwyddedu. Dywedodd y CBI ac eraill y dylai tribiwnlysoedd roi sylw priodol i'r ffaith bod y cynrychiolwyr yn gweithredu ar gyfarwyddiadau'r cleientau. Ysgrifennodd un cadeirydd tribiwnlys fod "*y pŵer i wneud gorchmynion am gostau gwastraff yn uniongyrchol yn erbyn cynrychiolwyr sy'n codi tâl am eu gwasanaethau yn ennyn cefnogaeth barnwyr tribiwnlysoedd bron yn llwyr*" yn ei farn ef.

57. Gan hynny bydd y Llywodraeth yn gwneud y newidiadau angenrheidiol yn y ddeddfwriaeth i alluogi tribiwnlysoedd i wneud gorchmynion costau gwastraff yn erbyn cynrychiolwyr sy'n codi tâl am eu gwasanethau fel hyn.

Cynnwys amser paratoi achos mewn dyfarniadau costau

58. Cynigiodd "Routes to Resolution" y dylai dyfarniadau costau gynnwys iawndal am yr amser a dreulir yn paratoi neu'n amddiffyn cais. Yr oedd y CBI a nifer o gyrff eraill i gyflogwyr yn cytuno. Yr oedd lleiafrif sylweddol o'r ymatebwyr, gan gynnwys y TUC, yn credu'n gryf y gallai fod yn anodd gweithredu hyn neu ei fod yn amhriodol. Credai un ymatebydd y gallai newid o'r fath annog cyflogwyr i dreulio amser ac adnoddau amhriodol yn paratoi eu hachos.

59. Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn iawn i'r rhai y mae achosion gwan a blinderus yn effeithio arnynt, yn geiswyr neu'n wrthapelwyr, gael iawndal am yr amser a dreulir yn paratoi eu hachos. Bydd yn sicrhau y cyfyngir yr iawndal hwn i gostau a dynnir yn rhesymol.

Ymestyn y gyfundrefn gostau i'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth

60. Bydd y Llywodraeth yn gweithredu hefyd er mwyn cysoni'r rheolau ar gostau yn y Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth a thribiwnlysoedd cyflogaeth. Gan hynny, bydd y Tribiwnlys Apelau yn cael dyfarnu costau os yw'r naill barti neu'r llall wedi gweithredu'n flinderus wrth ddwyn yr achos neu ei gynnal, neu os yw cais neu ymateb yn seiliedig ar gamdybiaeth a heb obaith gwirioneddol o lwyddo.

Newid y rhagdybiaeth wrth ddyfarnu costau

61. Cynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori y ceid rhagdybiaeth y byddai tribiwnlysoedd yn dyfarnu costau i'r parti llwyddiannus yn erbyn cais neu ymateb gwan. Credai llawer o gyflogwyr a'r cyrff sy'n eu cynrychioli y gallai newid y rhagdybiaeth ar gostau fod o fantais. Yr oeddent o'r farn nad yw tribiwnlysoedd bob amser yn gwneud y dyfarndaliadau hyn, hyd yn oed os oes tystiolaeth yw cyfiawnhau.

62. Nid oedd eraill, gan gynnwys y mwyafrif o'r undebau llafur a'r TUC, yn gweld manteision mewn newid o'r fath. Credai aelod o'r farnwriaeth tribiwnlysoedd fod y rheolau ar gostau yn ddigon eang eisoes i ddyfarnu costau mewn achosion priodol ac na ddylid gwneud unrhyw newid.

63. **Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gyfundrefn gostau sy'n atal ymddygiad afresymol gan y naill barti neu'r llall neu eu cynrychiolwyr. Cyn gweithredu ar y cynnig hwn, bydd yn ystyried y mater ymhellach, ac yn edrych ar sut mae'r gyfundrefn gostau bresennol yn gweithredu.**

Crynodeb o Effaith Rheoleiddio

64. Gyda'i gilydd mae'r cynigion ar gostau yn arwain at ostyngiad bach yn nifer yr achosion a'r ymatebion gwan. Mae gostwng nifer yr achosion yn arwain at **fuddion** i **gyflogwyr** o **£0.9 – 2.1 miliwn** ac i'r **trethdalwr o £0.7 miliwn**. Ceir **buddion** i geiswyr, os dyfernir costau iddynt, o **£0.4 – 0.5 miliwn**. Amcangyfrifir y bydd **costau** y cynnig yn **£1 – 1.4 miliwn** i geiswyr (a'u cynrychiolwyr) a **£0.8 miliwn** i **gyflogwyr a'u cynrychiolwyr** am yr un rheswm. Ceir **costau** gweinyddu bach i'r trethdalwr. Ar y cyfan, bydd y cynnig yn arwain at fuddion net.

Dileu ceisiadau gwan ar ôl adolygiad cyn y gwrandawiad

65. Gofynnodd y ddogfen ymgynghori beth arall all gael ei wneud i sicrhau bod achosion gwan yn cael eu gweld a'u trafod yn y dyddiau cynnar. Cynigiodd nifer o'r ymatebwyr y dylid defnyddio mwy ar adolygiadau cyn-gwrandawiad.

66. Ar hyn o bryd, caiff tribiwnlys cyflogaeth gynnal adolygiad cyn-gwrandawiad os yw o'r farn nad oes unrhyw rinwedd mewn hawliad (cais neu ymateb). Os yw'r gwrandawiad yn cadarnhau bod yr hawliad yn un gwan, caiff y tribiwnlys orfodi parti sydd er hynny yn dymuno bwrw ymlaen i dalu ernes. **Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddileu achosion gwan o System y Tribiwnlysoedd a bydd yn darparu'n unswydd i dribiwnlysoedd gael dileu hawliad mewn adolygiad cyn gwrandawiad yn ychwanegol at bwerau presennol y tribiwnlysoedd i ddileu**

hawliadau sy'n seiliedig ar gamdybiaeth ac sydd heb obaith gwirioneddol o lwyddo.

Llwybr cyflym

67. Gofynnodd y ddogfen ymgynghori am sylwadau ar gyflwyno system llwybr cyflym ar gyfer rhai awdurdodaethau megis torri contract, tyniadau anghyfreithlon o dâl a thaliadau diswyddo. Mae achosion o'r fath eisoes yn cael eu trafod yn aml gan gadeirydd sy'n eistedd ar ei ben ei hun. Croesawodd yr ymatebwyr yr egwyddor o symud achosion felly drwy'r system yn gyflym (mewn llawer o'r achosion, mae'r hawliadau hyn eisoes yn cael eu trafod yn gyflym gan y tribiwnlysoedd). Er hynny, mynegodd rhai bryderon am y ffordd y câi hyn ei wireddu, gan gynnwys pryder nad oedd achosion felly yn ddidrafferth bob amser ac y gallai'r cynnig roi baich ychwanegol ar y system pe na bai cyfnod cymodi yn cael ei gynnwys.

> "*Yr wyf yn credu bod achos llethol o blaid cyflwyno llwybr cyflym ar gyfer rhai awdurdodaethau … yn arbennig y gweithwyr hynny y mae eu cyflogwyr wedi gwrthod eu talu. Ni ddylent gael eu cadw yn aros am eu harian yn hirach nag sy'n hollol angenrheidiol i sicrhau gwrandawiad teg. Bach yw'r symiau arian yn aml, ond weithiau dyna unig ased y ceisydd."* Aelod o farnwriaeth y tribiwnlysoedd cyflogaeth.

Swyddogaeth ACAS mewn achosion llwybr cyflym

68. Credai'r mwyafrif llethol o'r ymatebwyr fod gan ACAS ran bwysig i'w chwarae wrth gymodi setliadau mewn achosion ynghylch tâl, torri contract a thaliadau diswyddo, er eu bod yn cydnabod bod eu hadnoddau o dan bwysau eisoes. Credai'r mwyafrif o'r rhai a gyflwynodd sylwadau ar y mater hwn mai camgymeriad fyddai tynnu ACAS o'r broses gymodi yn ei chyfanrwydd, fel y

cynigiwyd yn y papur ymgynghori. Cafwyd cefnogaeth i gyfnod byr o gymodi pan fyddai'r ddau barti o'r farn y byddai hynny o gymorth.

69. Bwriad y cynnig i sefydlu llwybr cyflym, a hynny heb broses gymodi, oedd caniatáu ymdrin ag achosion penodol mewn ffordd a fyddai'n gymesur â natur yr achos. Yn yr awdurdodaethau a restrwyd uchod, ac mewn achosion lle na cheir dadl hefyd, mae cefnogaeth gref ar gyfer ymdrin yn gyflym â'r achos.

70. **Fe fydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r cynnig i gyflwyno llwybr cyflym. Bydd yn darparu i ACAS gymodi hawliadau'r llwybr cyflym o fewn cyfnod amser penodedig byr. Caiff estyniadau i'r cyfnod penodedig eu cyfyngu i'r achosion hynny lle mae'r cymodwr o'r farn ei bod yn debyg y ceir setliad o fewn amser ychwanegol byr.**

<u>Caniatáu ar gyfer penderfyniadau ysgrifenedig mewn achosion llwybr cyflym</u>

71. Yr oedd y rhai a gyflwynodd sylwadau ar y pwynt hwn yn gryf o blaid y cynnig, ar yr amod bod y ddau barti wedi ildio'u hawl i gael gwrandawiad llafar. Mynegwyd awydd i gael ffordd i sicrhau na allai partïon sydd heb allu esbonio'u hachos yn ddigonol mewn ysgrifen osgoi gwrandawiad llafar.

"*Byddai cyflwyno system llwybr cyflym yn fanteisiol iawn i bob parti, ac yn gwneud y system yn llawer mwy effeithlon. Gallai penderfyniad ysgrifenedig fod o gymorth neilltuol i gyflogwyr, ac felly hefyd dystiolaeth ysgrifenedig yn lle mynd i wrandawiad."* Siambr Fasnach Manceinion.

72. **Mae'r Llywodraeth yn bwriadu darparu ar gyfer llwybr cyflym, a fydd yn cynnwys posibilrwydd penderfyniad ysgrifenedig. Bwriedir sicrhau bod y**

partïon yn hollol ymwybodol o effaith dewis penderfyniad ysgrifenedig drwy gynnwys dulliau diogelu yn y system, fel bod y partïon yn gofyn am gyngor trydydd parti cydnabyddedig i sicrhau bod eu cydsyniad i benderfyniad ysgrifenedig yn un hollol wybodus. Bydd gan y tribiwnlysoedd y disgresiwn i fynnu cynnal gwrandawiad llafar os ceir amheuaeth y gallai achos un parti neu'r ddau barti gael ei benderfynu'n iawn drwy gyflwyniadau ysgrifenedig yn unig, hyd yn oed pe baent wedi dewis penderfyniad ysgrifenedig.

Ffurflenni cais

73.Yr oedd tri chwarter yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y cynnig ynghylch ffurflenni gorfodol ar gyfer gwneud cais ac ymateb yn eu cefnogi. Awgrymodd llawer y dylid cyflwyno'r IT1 a'r IT3 mewn ffordd a fyddai'n helpu'r ceiswyr a'r ymatebwyr i sicrhau eu bod yn rhoi darlun llawn. Er hynny, credai Cyngor Cadeiryddion y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth y gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer y gwrandawiadau rhagarweiniol, a gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am i anghenion ceiswyr anllythrennog neu siaradwyr di-Saesneg gael eu cymryd i ystyriaeth. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r ffurflen fod ar gael ar ffurf electronig

74. Bydd y Llywodraeth yn gweithredu i'w gwneud yn ofynnol bod ffurflen gais yn cael ei defnyddio ar gyfer tribiwnlys cyflogaeth, gan y bydd hyn yn creu cryn fanteision gweithredol. Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn fuddiol sicrhau bod cymaint â phosibl o wybodaeth yn cael ei gyfnewid rhwng y partïon a'i roi i'r tribiwnlys o'r cychwyn cyntaf. Bydd yn sicrhau bod canllawiau priodol ar

lenwi'r ffurflen yn cael eu rhoi i geiswyr a gwrthapelwyr ac y bydd anghenion ceiswyr sydd o dan anfantais yn cael eu diwallu.

Cyfarwyddiadau Arfer

75. Yr oedd yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn gryf o blaid y cynnig i alluogi Llywyddion y tribiwnlysoedd cyflogaeth i roi cyfarwyddiadau arfer ar faterion gweithdrefnol a materion dros dro fel ffordd o sicrhau mwy o eglurder a chysondeb ar draws y rhanbarthau.

"Nid ydym yn gweld rheswm pam na ddylid ffurfioli'r system er mwyn caniatáu i Lywyddion roi cyfarwyddiadau arfer, gan eu bod yn rhoi cyngor yn barod ar amryw o faterion ac fe fyddai o gymorth pe bai'r system honno'n cael ei ffurfioli a'i chydnabod " Aelod o farnwriaeth y tribiwnlysoedd cyflogaeth

76. Gan hynny, bydd y Llywodraeth yn darparu i Lywyddion y tribiwnlysoedd cyflogaeth gael rhoi cyfarwyddiadau arfer ar faterion o'r fath ac efallai y bydd yn gweithredu, drwy gyfrwng rheoliadau, i sicrhau y cydymffurfir â chyfarwyddiadau arfer.

Cofrestru achosion yn gyhoeddus

77. Yn "Routes to Resolution" cynigiwyd mai dim ond ar ôl i gymodi fethu ac i'r hawliad ei hun gael ei restru ar gyfer gwrandawiad y dylai ceisiadau i dribiwnlysoedd cyflogaeth gael eu cofrestru'n gyhoeddus. Yr oed bron y cyfan o'r ymatebwyr a

gyflwynodd sylwadau ar y cynnig hwn o blaid cofrestru yn hwyrach na hyn. Wrth ategu'r cynnig, dywedodd Grwp Cyflogaeth y Cynrychiolwyr Ceiswyr y gallai'r cynnig annog rhai ymatebwyr i ymuno â'r broses gymodi. Cafwyd galwadau hefyd ar i'r Llywodraeth ddiddymu'r gofrestr ar y sail bod cofrestru hawliadau yn gyhoeddus yn niweidio gwaith cymodi, ac yn niweidio buddiannau'r partïon.

"Mae gwasanaeth y CAB yn croesawu'r cynnig i ohirio cyhoeddi ceisiadau i dribiwnlysoedd ar y gofrestr gyhoeddus, er mwyn caniatáu ar gyfer cyfnod cymodi. Er hynny, hoffem annog y Llywodraeth i fynd ymhellach, ac ystyried dileu'r wybodaeth hon o'r maes cyhoeddus yn llwyr." NACAB

78. Oherwydd y gefnogaeth a fynegwyd drwy'r ymgynghori i ddileu'r gofrestr gyhoeddus, bydd y Llywodraeth yn rhoi rhagor o ystyriaeth i gwestiwn cofrestru hawliadau i dribiwnlysoedd, gan gadw lles ehangach y cyhoedd mewn cof o ran datgelu gwybodaeth am geisiadau.

<u>Cyhoeddi manylion achos</u>

79. Gofynnodd y ddogfen ymgynghori hefyd am sylwadau ar gynnwys manylion y gwyn a'r ymateb ar y gofrestr gyhoeddus. Yr oedd y mwyafrif llethol a gyflwynodd sylwadau ar y cynnig hwn yn erbyn trefnu bod rhagor o wybodaeth ar gael ar y gofrestr. Cafwyd pryder y gallai rhoi rhagor o wybodaeth atal ceisiadau ac arwain at anawsterau i weithwyr wrth geisio cael cyflogaeth yn y dyfodol. Crynhowyd pryderon y cyflogwyr gan un Siambr Fasnach a ddywedodd "Gallai hyn annog y

cyfryngau i hoelio'u sylw ar achosion sy'n creu newyddion a'i gwneud yn anos cyrraedd setliad … Byddai'n well gan yr Aelodau gael mwy o breifatrwydd." Credai'r CBI na fyddai cam o'r fath yn hwb i osod enwau gweithwyr neu gyflogwyr ar restrau gwahardd ac yn atal achos rhag cael ei gau pan fyddai'r anghydfod yn dod i ben yn y pen draw. Er hynny, credai'r TUC a *Public Concern at Work* ei bod o les i'r cyhoedd i gwynion o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 gael eu datgelu er mwyn lleihau'r perygl y gallai lles cyhoeddus llethol gael ei anwybyddu wrth i hawliad gael ei setlo.

80. Ni fydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r cynnig i osod manylion y gwyn a'r ymateb ar y gofrestr.

ATODIAD A

Asesiadau o Effaith Rheoleiddio

1. Mae asesiadau o effaith rheoleiddio ar gyfer y cynigion unigol ar gael oddi wrth Lyfrgell y DTI drwy wneud cais amdanynt, a threfnir eu bod ar gael ar wefan y DTI.

Crynodeb o'r Asesiad rhannol o Effaith Rheoleiddio

2. Mae cynigion y Llywodraeth yn darparu ar gyfer gwell dulliau datrys anghydfod yn y man gweithio ac yn system y tribiwnlysoedd cyflogaeth. Mae'r problemau presennol yn y system gyfredol o ddatrys anghydfodau wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer y ceisiadau i dribiwnlysoedd cyflogaeth. Mae'r rhain yn gosod cyflogwyr, gweithwyr a system y tribiwnlysoedd ei hun o dan straen. Bydd anghydfod sy'n cael ei ddatrys yn y man gweithio, yn enwedig un a ddatrysir yn y dyddiau cynnar ac yn anffurfiol, yn lleihau tyndra yn y man gweithio ac yn golygu bod staff gwerthfawr yn cael eu cadw yn hirach. Mae anghydfod a ddatrysir mewn tribiwnlys yn aml yn arwain at ddiwedd y berthynas gyflogi. I'r gweithiwr mae hyn yn golygu colli swydd; i'r cyflogwr mae'n golygu recriwtio diangen a cholli medrau. A phan fydd rhaid i anghydfod fynd drwy broses y tribiwnlysoedd, dylai achosion gael eu datrys yn gynt, gan leihau ansicrwydd i geiswyr a chyflogwyr ill dau.

3. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys sawl mesur i roi sylw i hyn. Nid pob un ohonynt sy'n dwyn goblygiadau y mae angen eu hasesu mewn asesiad o effaith rheoleiddio. Dyma'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn:

- Teler tybiedig mewn contract i roi hawl/rhwymedigaeth i ddilyn yr isafswm safon ar gyfer gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- Pob datganiad ysgrifenedig o delerau ac amodau i gynnwys cyfeiriad at weithdrefnau'r man gweithio (dileu'r esemptiad ar gyfer cwmnïau bach);
- Tribiwnlysoedd i liniaru dyfarniadau i adlewyrchu a gafodd yr uchafswm safonau gweithdrefnol ei ddilyn ac a gafodd telerau ac amodau eu darparu;
- Dileu maglau gweithdrefnol mewn achosion o ddiswyddo annheg;
- Cyfnod cymodi penodedig ym mhob achos tribiwnlys;
- Newidiadau er mwyn lleihau costau gwastraff.

4. Yn y paragraffau unigol isod ceir amcangyfrifon o gostau a buddion y darpariaethau hyn. Ceir llawer o orgyffwrdd rhwng y mwyafrif o'r cynigion. Mae cyfanswm y buddion a'r costau yn llai na'r buddion a'r costau unigol. Ceir Asesiadau manylach o Effaith Rheoleiddio yn yr Asesiad o Effaith Rheoleiddio a geir i ategu'r Mesur Cyflogaeth[1] ac eithrio'r cynnig ar gyfer llwybr cyflym, lle mae'n bosibl na fydd angen newid y ddeddfwriaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig.

[1] Mae'r amcangyfrifon o gostau a buddion a geir yma ychydig yn wahanol i'r rhai a geir yn yr Asesiad i gyd-fynd â'r Mesur Cyflogaeth. Y rheswm am hynny yw bod cynigion y Mesur ar gyfer

Cynigion ar gyfer:

(i) Teler tybiedig mewn contract i roi hawl/rhwymedigaeth i ddilyn yr isafswm safon ar gyfer gweithdrefnau cwyno a disgyblu;

(ii) Pob datganiad ysgrifenedig o delerau ac amodau i gynnwys cyfeiriad at weithdrefnau'r man gweithio (dileu'r esemptiad ar gyfer cwmnïau bach); a

(iii) Tribiwnlysoedd i liniaru dyfarniadau i adlewyrchu a gafodd yr uchafswm safonau gweithdrefnol ei ddilyn ac a gafodd telerau ac amodau eu darparu.

5. Bydd rhaid i bob cyflogwr gyflwyno gweithdrefn foddhaol, mewn tri cham, ar gyfer cwynion a disgyblu, i ymdrin â materion cyflogaeth sy'n codi yn y man gweithio (sef gweithdrefn sy'n cydymffurfio o leiaf â'r isafswm safonau gweithdrefnol). Mae'n ofynnol i'r gweithwyr ddefnyddio'r safonau hyn hefyd. Os bydd y naill barti neu'r llall yn methu â chyflawni ei rwymedigaeth, caiff hyn ei adlewyrchu yn y dyfarndaliad.

6. Mae hyn yn gymhelliant i weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd ddechrau trafodaeth am unrhyw broblemau a all godi. Yn y tymor canol i hir, dylai hyn wella cysylltiadau cyflogaeth ac agor y ffordd y mae'r ddau barti yn trafod anghydfodau. Bydd y cyflogwyr yn teimlo mantais proses glir a thryloyw sy'n eu helpu i ddatrys problemau. Efallai y bydd gweithwyr a fyddai wedi ymadael fel arall am eu bod yn teimlo eu bod wedi eu trin yn annheg, neu am fod y berthynas wedi dirywio dros y misoedd yn arwain at achos y tribiwnlys, bellach yn penderfynu aros.

7. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan y mwyafrif o'r cyflogwyr mawr weithdrefnau sy'n bodloni'r isafswm safonau yn barod. Mae cyfran anghymesur o geisiadau i dribiwnlysoedd yn codi mewn mannau gwaith lle nad oes gweithdrefnau ar gael neu lle nad ydynt wedi cael eu dilyn yn ddigon da. Gan hynny, fe ddylai mwy o ddefnyddio ar y gweithdrefnau leihau'n sylweddol ar niferoedd y ceisiadau i dribiwnlysoedd.

8. Amcangyfrifir gostyngiad yn nifer y ceisiadau o rhwng 30,000 a 40,000 y flwyddyn. Mae'r cyflogwyr yn arbed amser ac arian (£60– 80 miliwn), mae gweithwyr yn arbed eu hamser eu hunain ac yn lleihau lefelau straen, a cheir arbedion i'r trethdalwr drwy gael llai o achosion (£11–15 miliwn). Bydd amser – blwyddyn o bosibl – yn mynd heibio rhwng cyflwyno'r gweithdrefnau yn helaeth mewn cwmnïau a lleihad yn nifer y ceisiadau i dribiwnlysoedd.

9. Mae yna gostau i'r cyflogwyr. Ceir costau unwaith-yn-unig yn sgil cyflwyno neu ddiwygio gweithdrefnau cwyno neu ddisgyblu os nad yw'r rhain yn bodloni'r isafswm safonau gweithdrefnol eisoes, ac yn sgil eu hymgorffori yn y datganiad

---

datrys anghydfodau yn cynnwys cynnig ar gyfer holiadur cyflog cyfartal, nad yw'n cael ei drafod yn yr ymateb hwn gan y Llywodraeth.

cyflogaeth ysgrifenedig (£46–86 miliwn). Ceir costau parhaus hefyd yn sgil treulio amser rheolwyr ar ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn yn helaethach (£42–90 miliwn y flwyddyn).

Dileu maglau gweithdrefnol mewn achosion o ddiswyddo annheg

10. Mae rhai cyflogwyr wedi colli ffydd yn system y tribiwnlysoedd am eu bod yn credu y byddant yn colli achos diswyddo annheg yn sgil gwall bach yn eu gweithdrefnau, hyd yn oed pe na bai dilyn y weithdrefn gywir wedi gwneud gwahaniaeth i'r canlyniad. Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai'r tribiwnlys anwybyddu'r gwall gweithdrefnol os na fyddai wedi gwneud gwahaniaeth i'r canlyniad. Dim ond i weithdrefnau sy'n ychwanegol at yr isafswm safonau gweithdrefnol a fydd bellach yn rhan o'r contract cyflogaeth y bydd hyn yn gymwys.

11. Dylai'r newid hwn atal rhai ceisiadau i dribiwnlysoedd sydd wedi'u seilio'n bennaf ar wall yn y gweithdrefnau. £6-9 miliwn y flwyddyn yw'r buddion i'r cyflogwyr. O'r rhain, mae rhyw £4-6 miliwn yn drosglwyddiadau o'r gweithwyr oherwydd newidiadau yn strwythur canlyniadau tribiwnlysoedd. Ceir buddion i'r trethdalwr o ryw £1 miliwn.

12. Mae costau'r cynnig yn gysylltiedig hefyd â'r newid yn y canlyniadau. Ceir gostyngiad o ryw £1 miliwn yn nyfarndaliadau a setliadau unigolion. Mae ymatebwyr yn colli £4-6 miliwn. Ceir costau i'r trethdalwr o £2-5 miliwn.

Cyfnod cymodi penodedig ym mhob achos tribiwnlys

13. Mae nifer fawr o geisiadau'n cael eu setlo gyda chymorth cymodi drwy ACAS (38%). Mae'r gyfran hon yn amrywio rhwng yr awdurdodaethau. Gall cymodwyr ACAS chwarae rhan hefyd mewn achosion a dynnir yn ôl. Weithiau caiff achos ei setlo neu ei dynnu'n ôl ychydig cyn y gwrandawiad. Gall hyn fod yn gostus i'r trethdalwr ac i'r ddau barti.

14. Un ddarpariaeth sydd i gael ei chyflwyno yw defnyddio cyfnod penodedig ar gyfer cymodi, pryd y gall meddwl y ddau barti ganolbwyntio ar y broses gymodi.

15. Nod cyfnod cymodi penodedig yw cynyddu nifer y setliadau a gostwng y niferoedd sy'n setlo yn agos at ddyddiad y gwrandawiad. Bydd yr effaith olaf yn benodol yn helpu Gwasanaeth y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth i drafod ceisiadau eraill yn fwy effeithlon.

16. Y disgwyl yw y ceir gostyngiad o rhwng 1,700 a 3,400 yn nifer y gwrandawiadau bob blwyddyn. Ceir rhywfaint o drosglwyddo rhwng gwrthapelwyr a cheiswyr oherwydd newid yn strwythur y canlyniadau. Ceir buddion ariannol i'r cyflogwyr o £3 - 7 miliwn ac i'r trethdalwr o £2-3 miliwn. Mae unigolion ar eu hennill hefyd o £1 - 2 miliwn wrth i fwy o achosion gael eu setlo ar draul cyflogwyr.

Dyfarnu costau

17. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cryfhau'r cymhellion i atal ymddygiad afresymol hyd at y gwrandawiad ac yn ystod proses y gwrandawiad, a hynny drwy newid y rheolau ar ddyfarnu costau. Bydd dyfarniadau costau yn cynnwys cost yr amser a dreulir gan y partïon os yw'r achosion neu'r amddiffyniadau yn wan, neu os yw'r parti arall wedi ymddwyn yn afresymol. Bydd yn bosibl dyfarnu costau yn erbyn cynrychiolwyr sydd wedi'u talu os eu hymddygiad nhw sydd wedi ysgogi'r dyfarndaliad.

18. Dylai'r cynigion atal nifer fach o geisiadau ac ymatebion gwan i dribiwnlysoedd (100-500 y flwyddyn) a byddant hefyd yn hwb ar gyfer mwy o setliadau a llai o wrandawiadau. Hefyd, caiff mwy o ddyfarniadau costau eu gwneud, gan roi mwy o iawndal i'r rhai sydd wedi dioddef ymddygiad afresymol.

19. Amcangyfrifir y ceir arbedion o ychydig o dan £1 miliwn y flwyddyn i'r trethdalwr, ynghyd â buddion i'r cyflogwyr yn sgil llai o geisiadau, sef £0.2-1 miliwn. Ceir cynnydd hefyd yn llif y taliadau rhwng cyflogwyr a cheiswyr yn sgil defnyddio mwy ar ddyfarniadau costau. Disgwylir y bydd ceiswyr yn gweld £0.4-0.5 miliwn o fantais, ac y bydd gwrthapelwyr yn gweld mantais o £0.7-1.1 miliwn (mae'r gwrthapelwyr yn manteisio'n fwy am eu bod yn debycach o ddefnyddio amser rheolwyr a chynrychiolwyr cyfreithiol wrth ymdrin â chais i dribiwnlys).

Llwybr cyflym

20. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno system llwybr cyflym yn strwythur presennol y tribiwnlysoedd. Byddai'r llwybr cyflym newydd hwn ar agor ar gyfer awdurdodaethau penodol sydd wedi'u seilio ar ffeithiau yn bennaf, e.e. tynnu symiau'n anghyfreithlon o gyflogau, torri contract a thâl afreidedd. Câi achosion cymwys eu hanfon at ACAS am gyfnod cymodi byr penodedig ac wedyn caent eu rhestru i gael eu gwrando. Byddai'r dewis o gael penderfyniad ysgrifenedig ar gael hefyd.

21. Byddai rhyw 15,000 o geisiadau y flwyddyn yn gymwys ar gyfer y llwybr cyflym, er y gall hyn fod yn amcangyfrif rhy isel. Effaith y llwybr cyflym fydd bod llai o geisiadau'n cael eu setlo a'u cymodi a bod mwy yn mynd i dribiwnlys i gael eu penderfynu, naill ai drwy wrandawiad neu yn ysgrifenedig.

22. Bydd cyflogwyr yn gweld buddion o £1.5 - 1.9 miliwn mewn achosion lle caiff setliadau eu hosgoi neu nad ydynt yn cyrraedd y tribiwnlys ond yn erbyn hynny maent yn wynebu costau yn sgil achosion eraill sydd yn awr yn debycach o gyrraedd tribiwnlys (£1.4 - 1.6 miliwn). Mae rhai ceiswyr yn ennill yn sgil y llwybr cyflym, am fod dyfarndaliadau tribiwnlys yn tueddu i fod yn uwch na setliadau (£0.7-0.8 miliwn) ond mae mwy ar eu colled, am eu bod yn colli'r achos gerbron y tribiwnlys neu'n tynnu'n ôl yn hytrach na setlo (£1.7-2.1 miliwn). Yn fras, niwtral yw'r effaith ar Wasanaeth y Tribiwnlys Cyflogaeth hefyd. Mae mwy o wrandawiadau yn ychwanegu £0.6-0.7 miliwn at y costau ond ceir arbedion hefyd, yn sgil trafod achosion yn fwy effeithlon (£0.4-0.8 miliwn).

23. Mae gan y llwybr cyflym fuddion ehangach hefyd. Ceir posibilrwydd y bydd rhywfaint o adnoddau ACAS yn cael eu hailgyfeirio i wella'r cyfraddau cymodi mewn awdurdodaethau eraill.

Effaith gyffredinol gweithdrefnau datrys anghydfodau

24. Nid swm pob cynnig unigol yw effaith gyffredinol y cynigion uchod. Mae sawl cynnig yn mynd i'r afael â'r un materion neu â materion y mae cysylltiad agos rhyngddynt. Mae eu heffaith felly yn gorgyffwrdd.

25. Mae'r tabl isod yn crynhoi faint yw costau a buddion pob cynnig ynghyd â'u cyfraniad at effaith gyffredinol y cynigion ar gyfer datrys anghydfodau.

Prisiau 2000/01 yw pob pris, £ miliynau, costau a buddion ailgylchol oni ddywedir yn wahanol.

	Maint y buddion	Maint y costau
Gweithdrefnau (isafswm safonau gweithdrefnol, datganiadau ysgrifenedig, lleihau dyfarndaliadau)		
Buddion a chostau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain:		
I gyflogwyr	60 - 80	46 - 86 (unwaith-yn-unig) 42 - 90 (ailgylchol)
I unigolion		
I'r trethdalwr	11 - 15	
Yn cael eu defnyddio yn waelodlin ar gyfer y costau agregedig.		
Diddymu maglau gweithdrefnol		
Buddion a chostau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain:		
I gyflogwyr	6 - 8.5	1.4 - 4.1
I unigolion		4 - 6.1
I'r trethdalwr	0.9 - 1.5	1.8 - 5.4
Bydd gweithdrefnau syml ac effeithiol a ddeellir yn eang a'u hategu â chyngor a chanllawiau yn dileu rhywfaint, ond nid y cyfan, o'r lle ar gyfer gwallau yn y gweithdrefnau. Gan hynny lleihau costau a buddion 50%.		
Cyfraniad at yr effaith agregedig:		
I gyflogwyr	3 - 4.3	0.7 - 2.1
I unigolion		2 - 3.1
I'r trethdalwr	0.5 - 0.8	0.9 - 2.7
Cyfnod cymodi penodedig		
Buddion a chostau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain:		
I gyflogwyr	3.2 - 6.5	0.7 - 2.4
I unigolion	0.7 - 2.4	0.4 - 1.4
I'r trethdalwr	1.5 – 3	
Mae gweithdrefnau mwy effeithiol a ddefnyddir yn ehangach yn lleihau nifer yr anghydfodau i ddechrau. Bydd cynigion ar gostau sy'n mynd i'r afael ag achosion gwan hefyd yn tueddu i hybu setliadau cynnar ar yr achosion gwannaf. Bydd y cynnig llwybr cyflym hefyd yn lleihau'r effaith. Gan hynny lleihau costau a buddion 50%.		
Cyfraniad at yr effaith agregedig:		
I gyflogwyr	1.6 - 3.3	0.4 - 1.2
I unigolion	0.4 - 1.2	0.2 - 0.7
I'r trethdalwr	0.8 - 1.5	
Cynigion i fynd i'r afael â chostau gwastraff		
Buddion a chostau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain:		
I gyflogwyr	0.9 -2.1	0.4 - 0.5
I unigolion	0.4 - 0.5	1 - 1.4
I'r trethdalwr	0.7	

	Maint y buddion	Maint y costau
Lleihau costau a buddion yn ôl y gyfran sy'n codi yn sgil llai o geisiadau i dribiwnlysoedd, gan fod y rhain yn debyg o gael eu hatal hefyd drwy ddefnyddio'r gweithdrefnau'n well. Ond ni fydd cael mwy o weithdrefnau ar ei ben ei hun yn ddigon i atal pob ymddygiad afresymol.		
Cyfraniad at yr effaith agregedig:		
I gyflogwyr	0.7 - 1.1	0.4 - 0.5
I unigolion	0.4 - 0.5	1 - 1.4
I'r trethdalwr	0.5 - 0.8	
Llwybr cyflym		
Buddion a chostau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain:		
I gyflogwyr	1.5 - 1.9	1.4 - 1.6
I unigolion	0.7 - 0.8	1.7 - 2.1
I'r trethdalwr	0.4 - 0.8	0.6 - 0.7
Bydd y gostyngiad yn nifer y ceisiadau oherwydd y gweithdrefnau mwy cyffredin (23-31%) yn effeithio ar nifer yr achosion ar y llwybr cyflym. Efallai y bydd y cynigion ynghylch costau yn cael rhyw effaith hefyd. Lleihau costau a buddion 35% i ganiatáu ar gyfer yr effeithiau hyn.		
Cyfraniad at yr effaith agregedig:		
I gyflogwyr	1 - 1.2	0.9 – 1
I unigolion	0.5 - 0.6	1 - 1.4
I'r trethdalwr	0.3 - 0.5	0.4 - 0.5
Cyfanswm buddion y cynigion ar gyfer datrys anghydfodau a gynhwysir yn y Mesur (wedi'u talgrynnu i'r £1 miliwn agosaf):		
I gyflogwyr	**66 – 90**	**46 - 86 (unwaith-yn-unig)** **44 - 95 (ailgylchol)**
I unigolion	**1 – 2**	**4 – 7**
I'r trethdalwr	**13 – 19**	**1 – 3**

26. Y cynnig mwyaf arwyddocaol o lawer o ran ei effaith yw cyflwyno gweithdrefn gwyno a gweithdrefn ddisgyblu fel hawl gontractiol. O weithredu hyn, aiff llai o anghydfodau i dribiwnlysoedd – gan leihau costau a buddion bron y cyfan o'r cynigion uchod sy'n rhoi sylw i achosion sy'n cyrraedd y tribiwnlysoedd mewn gwirionedd.

27. Amcangyfrifir mai gostwng nifer y ceisiadau 23-31% neu rhwng 30,000 a 40,000 o geisiadau (gan ddefnyddio niferoedd y ceisiadau presennol fel man cychwyn) fyddai effaith gyffredinol y cynigion[2]. Amcangyfrifir y bydd yna fuddion i gyflogwyr o £66-90 miliwn pan fydd y cynigion wedi dod i'r amlwg ar ffurf llai o geisiadau i dribiwnlysoedd. Bydd y trethdalwr yn gweld buddion o £13-19 miliwn a

[2] Dim ond 70% o'r ceisiadau y mae'r ETS wedi llwyddo i ymdrin â hwy yn 2000/01. Gan hynny, mae'r buddion i'r ETS wedi'u seilio ar 70% o'r amcangyfrif o'r gostyngiad yn nifer yr achosion.

cheir buddion i unigolion o £1-2 miliwn. Ceir rhai costau i gyflogwyr, yn enwedig oherwydd cyflwyno'r isafswm safonau gweithdrefnol. Ceir costau unwaith-yn-unig o £46-86 miliwn. Mae defnyddio gweithdrefnau yn arwain at gostau parhaus o £42-90 miliwn. Ni fydd cyflogwyr sydd eisoes yn meddu ar weithdrefnau ac yn eu defnyddio yn wynebu dim costau ychwanegol. Mae'r cynigion eraill yn ychwanegu £2-5 miliwn arall. At ei gilydd, mae'r costau i'r trethdalwr yn gysylltiedig â newidiadau yng nghanlyniad ceisiadau, a chostau polisi yw'r rhain felly, nid costau gweithredu. Mae'r costau hyn yn werth £1-3 miliwn.

Yr effaith ar fusnesau bach

28. Mae'r mesurau a gynigiwyd yn effeithio ar fusnesau o bob maint. Cafodd yr ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd ar gyfer y mwyafrif o'r cynigion ymateb gan fusnesau mawr a mân. Cafodd grwpiau ffocws eu cynnull gyda chwmnïau bach. Ymgynghorwyd â Gwasanaeth y Busnesau Bach ynghylch cynnwys yr Asesiad hwn.

29. Mae'n debyg y bydd y cynnig i'w gwneud yn ofynnol bod isafswm safonau ar gyfer gweithdrefn gwyno a gweithdrefn ddisgyblu yn cael ei gyflwyno yn effeithio yn anghymesur ar gwmnïau bach. Y rheswm am hyn yw ei bod yn llai tebyg bod ganddynt weithdrefnau sy'n bodloni'r safonau hyn a'u bod yn llai tebyg o'u dilyn os ydynt yn bodoli. Gan hynny, fe fydd cost cyflwyno'r isafswm gweithdrefnau yn effeithio ar y mwyafrif o fusnesau bach – ond felly hefyd y buddion, wrth weld llai o achosion yn mynd i dribiwnlysoedd cyflogaeth. Gallai'r cynnig bod maglau gweithdrefnol yn cael eu dileu fod o fantais i fusnesau bach, yn arbennig am fod yna dystiolaeth mai cwmnïau bach sydd debycaf o wneud gwallau yn eu gweithdrefnau.

Dadansoddiad sensitifrwydd

30. Rhaid gwneud llawer iawn o ragdybiaethau wrth baratoi'r asesiadau hyn o effaith rheoleiddio. Ni ddylid cymryd bod yr amrediadau a gynigir yn dihysbyddu holl amrediad y posibiliadau. Bu'n rhaid gwneud rhagdybiaethau ynghylch ymddygiad cyflogwyr a gweithwyr yn y dyfodol, sef rhagdybiaethau y mae'n anodd eu profi ar sail data hanesyddol. Mae'r asesiad hwn wedi'i baratoi hefyd ar y rhagdybiaeth y cydymffurfir yn llawn â chynigion y Llywodraeth. Mae'n debyg y byddai lefelau arwyddocaol o beidio â chydymffurfio, er enghraifft â'r darpariaethau ynghylch isafswm safonau gweithdrefnol, yn lleihau cryn dipyn ar gostau a buddion y cynigion hyn.

ATODIAD B

Ymatebwyr i'r Ymgynghori

Alliance and Leicester
Awdurdod Datblygu Dwyrain Canolbarth Lloegr
Awdurdod Datblygu Rhanbarthol Swydd Efrog a Humber
Bwrdeistref Llundain Camden
Cadeiryddion Tribiwnlysoedd Cyflogaeth
Cangen UNSAIN Dinas Derby
Canolfan Ddi-waith Southampton a'r Cylch
Canolfan Dechnoleg Siambr y Black Country
Canolfan Gyfraith Avon a Bryste
Canolfan Gyfraith Bradford
Canolfan Gyfraith Coventry
Canolfan Gyfraith yr Alban
Canolfan Gynghori Ardal Selby
Canolfan Gynghori Blyth Valley
Canolfan Gynghori Middlesbrough
Canolfan Gynghori Otley
Canolfan Gynghori Rydale
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Conflict Management Plus Cyfyngedig
Consignia
Cwmni Moduron Ford Cyfyngedig
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogi
Cyfreithwyr Busnes yn Ewrop
Cyfreithwyr Carter Hodge
Cyfreithwyr Gately Waring
Cyfreithwyr Thompson
Cyfreithwyr y DLA
Cyngor Cadeiryddion y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth
Cyngor Cenedlaethol Teuluoedd Un Rhiant
Cyngor Dinas Southampton

Cyngor Llafur Blackburn a'r Cylch
Cyngor Llafur Ilfracombe a'r Cylch
Cyngor Sir Northumberland
Cyngor Undebau Llafur Ardal Rugby
Cyngor Undebau Llafur Hyndburn a Rossendale
Cyngor y Busnesau Bach
Cyngor y Tribiwnlysoedd
Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)
Cymdeithas Aelodau Cyngor y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth
Cymdeithas Aelodau Tribiwnlys Cyflogaeth Bryste
Cymdeithas Aelodau Tribiwnlys Cyflogaeth y Peninsula (PETMA)
Cymdeithas Aelodau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth Canol Llundain
Cymdeithas Bargyfreithwyr y Gyfraith Gyflogaeth
Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon
Cymdeithas Canolfannau Cynghori yr Alban
Cymdeithas Cludiant Ffyrdd
Cymdeithas Cyflogwyr Llywodraeth Leol
Cymdeithas Cyfranogi a Chymryd Rhan (IPA)
Cymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth
Cymdeithas Cyfreithwyr Sosialaidd Haldane
Cymdeithas Cynghorau Llafur Sir Gaerhirfryn
Cymdeithas Fawcett
Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch (NATFHE)
Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch (NATFHE-Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr)
Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori (NACAB)
Cymdeithas Staff Cyflogedig Trafnidiaeth
Cymdeithas Staff Rheolaethol a Phroffesiynol
Cymdeithas y Colegau
Cymdeithas y Contractwyr Gwresogi ac Awyru
Cymdeithas y Contractwyr Trydan
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cymdeithas y Diwydiannau Cemegol
Cymdeithas y Diwydiant Adeiladu Peirianegol
Cymdeithas y Golygyddion

Cymdeithas y Gwasanaethau Busnes
Cymdeithas y Gyfraith Gamwahaniaethu
Cymdeithas y Papurau Newydd
Cymdeithas y Peirianwyr a'r Tanwyr Locomotifau
Cymdeithas y Siopau Hwylus
Cymdeithas y Swyddogion Carchar
Cymdeithas Ymarferwyr y Gyfraith Gyflogaeth
Cymdeithas yr Ymgynghorwyr a'r Penseiri
Cymdeithion John Ellis
Cymdeithion M J Carter
Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr
Cynhadledd Llywodraeth Leol Dwyrain Lloegr
Cynrychiolwyr Ceiswyr Grwp y Gyfraith Gyflogaeth (ELGAR)
Equity
Freedom to Care
Freshfields Bruckhaus Deringer
Ffederasiwn Cenedlaethol Trin Gwallt
Ffederasiwn Diwydiannau Argraffu Prydain (BPIF)
Ffederasiwn Mecanegol a Chrefftau Metel METCOM
Ffederasiwn y Canolfannau Cyfraith
Ffederasiwn y Cyflogwyr Peiriannu
Ffederasiwn y Diwydiant Llaeth
Ffederasiwn y Diwydiant Manwerthu Moduron Cyf
Fforwm Busnes Preifat
Fforwm y Cyflogwyr ar Statudau ac Arferion
Geo Post
Grwp Abbey National
Grŵp Menzies
Grwp Defnyddwyr Tribiwnlys Cyflogaeth Newcastle
Grwp Gweithredu Cyfreithiol
Grwp Llywodraeth Leol Cymdeithas y Cyfreithwyr
Gwasanaeth Ymgynghorol Cymodi a Chymrodeddu (ACAS)
Gwasanaethau Busnes y Peninsula Cyfyngedig
Gwasanaethau Ymgynghorol Personél
Gweithgynhyrchwyr Dodrefn Prydain Cyfyngedig
Hawliau Cyflogaeth Rhydychen

Heddlu Avon a Gwlad yr Haf
Heddlu Tayside
John Stamford a'i Gymdeithion
Littlewoods CCC
Lloyds TSB
London Electricity
Nelson a'i Gwmni
Partneriaeth John Lewis
Plaid Lafur Etholaeth Cannock Chase
Pryder Cyhoeddus yn y Gwaith
Reed Executive CCC
Roberts Menton Cyf
Rhwydwaith Hawliau Cyflogaeth Gogledd Lloegr
Rhwydwaith Hawliau Cyflogaeth yr Alban
Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol Pobl Fyddar (RNID)
Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Deillion (RNIB)
Sefydliad Siartredig Datblygu Personél
Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Sefydliad y Rheolwyr Proffesiynol a'r Arbenigwyr (IPMS)
Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus
Select
Siambr Fasnach Coventry a Warwickshire
Siambr Fasnach Gogledd Swydd Stafford
Siambr Fasnach Manceinion
Siambr Masnach a Diwydiant Birmingham
Siambr Masnach a Diwydiant Canol Swydd Efrog
Siambrau Charter
Siambrau Masnach Bradford
Siambrau Masnach Prydain (BCC)
Tasglu Gwell Rheoleiddio
Total Conflict Management
Travers Smith Braithwaite
Tribiwnlys Cyflogaeth Rhanbarth Birmingham
Tribiwnlys Cyflogaeth Southampton
Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Yr Alban)
Tribiwnlysoedd Cyflogaeth Canol Llundain

Undeb Cenedlaethol Gweithwyr Rheilffyrdd, y Môr a Thrafnidiaeth

Undeb Cenedlaethol yr Ysgolfeistri a'r Athrawesau

Undeb Cyfun y Peirianwyr a'r Trydanwyr

Undeb Darlledu, Adloniant, y Sinema a'r Theatr

Undeb Graffeg, Papur a Chyfryngau

Undeb Gweithgynhrychu, Gwyddonaieth a Chyllid (Ardal Rugby)

Undeb y GMB

Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (Cangen Manceinion PCS/LCD)

Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS)

Undeb y Gweithwyr Adeiladu, Crefftau Cysylltiedig a Thechnegwyr (UCATT-Yr Alban)

Undeb y Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Chrefftau Cysylltiedig

Uned Cyflogaeth a Thâl Isel Gorllewin Canolbarth Lloegr

Uned Tâl Isel Manceinion Fwyaf

Uned Tâl Isel Swydd Efrog a Humberside

Uned Tâl Isel yr Alban

UNIFI

UNSAIN

Wordwave

Y Comisiwn Cyfle Cyfartal

Y Comisiwn Hawliau Anabledd

Y Cydffederasiwn Adeiladu

Y Ffederasiwn Bwyd a Diod

Y Ganolfan Cynghori Myfyrwyr

Y Ganolfan Datrys Anghydfodau

Y Gwasanaeth Heddlu Metropolitanaidd

Y Gymdeithas Ddiwydiannol

Y Gymdeithas Drydan (EA)

Y Sefydliad Hawliau Cyflogaeth

Ymgynghoriaeth Buddenbrook

Yr Asiantaeth Safonau Gyrru

Yr Uned Tâl Isel a Morrish a'i Gwmni

Cafwyd 26 o ymatebion oddi wrth unigolion

ATODIAD C

Tasglu System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth: Cylch Gwaith

1. Bydd Tasglu System y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant a'r Arglwydd Ganghellor ar sut y gall gwasanaethau gael eu gwneud yn fwy effeithlon a chost-effeithiol i ddefnyddwyr, yn erbyn cefndir o gynnydd yn nifer yr achosion.

2. Amcan cyffredinol y Tasglu yw sicrhau bod system y tribiwnlysoedd cyflogaeth yn adlewyrchu anghenion ei ddefnyddwyr a'r newidiadau yn yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Gan adeiladau ar yr arferion gorau, bydd y Tasglu:

- yn nodi ffyrdd o wella effeithlonrwydd gweithrediadol a'r lle i wella gwasanaethau drwy wneud busnes yn electronig;

- yn rhoi cyngor ar yr angen am fuddsoddiadau newydd i fodloni unrhyw amcanion gwasanaeth a mesurau perfformiad diwygiedig;

- yn ystyried sut i wella'r cysylltiadau rhwng pawb sy'n rhan o'r system, gan gynnwys y farnwriaeth a'r weinyddiaeth;

- yn edrych ar welliannau posibl yn rheolaeth llif achosion, ac yn rheolaeth yr achosion.

3. Wrth ddod i'w gasgliadau, bydd yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion y defnyddwyr (yn enwedig ceiswyr unigol a busnesau bach), a barn y farnwriaeth a'r staff.

4. Nid yw cylch gwaith y Tasglu yn cynnwys y fframwaith o ddeddfwriaeth sylfaenol y mae system y tribiwnlysoedd cyflogaeth yn gweithredu ynddo na'r hawliau cyflogaeth y maent yn eu gorfodi. Er hynny, mae'n bosibl yr hoffai'r Tasglu ystyried agweddau gweithrediadol ar weithredu'r cynigion a nodwyd yn y papur ymgynghori 'Routes to Resolution', gan gynnwys agweddau gweithrediadol a allai gael eu rhoi ar waith drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd y Tasglu'n rhoi sylw dyledus i annibyniaeth y farnwriaeth ac i'r cyfrifoldebau datganoledig.

5. Bydd y Tasglu yn gorffen ei waith ac yn cyflwyno adroddiad yn y Gwanwyn yn 2002. Janet Gaymer fydd ei Gadeirydd.

ATODIAD D

Cysylltiadau

Y Gwasanaeth Ymgynghorol Cymodi a Chymrodeddu (ACAS)
Gwefan: www.acas.org.uk
Llinell gymorth: 020 7396 5100

Cysylltiadau Cyflogaeth y DTI
Gwefan: www.dti.gov.uk/er

Y Gwasanaeth Llysoedd
E-bost: cust.ser.cs@gtnet.gov.uk
Ffôn: 020 7210 8500

Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgell y DTI
Uned Llywodraeth Agored a Diogelu Data
Ffôn: 020 7215 6226

Y Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth (EAT)
Gwefan: http://www.employmentappeals.gov.uk/
Ffôn: 020 7273 1044

Y Tribiwnlysoedd Cyflogi
Gwefan: www.employmenttribunals.gov.uk

Gwasanaeth y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (ETS)
Gwefan: www.ets.gov.uk
Ffôn: 020 7273 8666

Tasglu System y Tribiwlysoedd Cyflogaeth
Gwefan: www.employmenttribunalsystemtaskforce.gov.uk

Adran yr Arglwydd Ganghellor
E-bost: general.queries@lcdhq.gsi.gov.uk

Y Gronfa Bartneriaeth
Gwefan: http://www.dti.gov.uk/partnershipfund

Canllawiau Rhyngweithiol Pwrpasol ar Hawliau Cyflogaeth (TIGER)
Gwefan: www.tiger.gov.uk

Y Llyfrfa (Archebion post, ffôn a ffacs yn unig)
Ymholiadau Cyffredinol: 0870 600 5522